

<p><i>Teitl:</i> Asesiad Effaith cynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd Cymru a Lloegr</p> <p><i>Rhif AE:</i> Adran neu asiantaeth arweiniol: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Adrannau neu asiantaethau eraill:</p>	Asesiad o Effaith (AE)
	Dyddiad:
	Cam: Ymgynghoriad
	Ffynhonnell yr ymyriad: Domestig
	Math o fesur: Arall
	Cyswllt ar gyfer ymholiadau:
Crynodeb: Ymyriad ac Opsiynau	Barn yr RPC:

Cost yr Opsiwn a ffafir (neu'r un mwyaf tebygol)

Cyfanswm y Gwerth Net Presennol	Gwerth Busnes Net Presennol	Cost net i fusnes y flwyddyn (cost net flynyddol gyfwerth i fusnes ar sail prisiau 2009)	O fewn cwmpas y fethodoleg Un i Mewn, Un Allan?	Y mesur yn cael ei ystyried yn
£200m	£m	£m	Nac ydy	Amh

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Nid yw ystad canolfannau gwrandawiadau GLITEM yn bodloni gofynion strategol y sefydliad. Diben yr ymgynghoriad hwn yw mynd i'r afael â maint presennol yr ystad a'r gost gysylltiedig sy'n anghynnaladwy yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n cynnig cau'r gormodedd o adeiladau; yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio, sydd mewn cyflwr gwael neu sydd â chyfleusterau annigonol. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi sylw i lysoedd ynadon, llysoedd sirol a llysoedd y goron ynghyd â chanolfannau gwrandawiadau triwlynlysoedd. Nod y cynigion yw gwella'r modd o weithio drwy symud gwaith i safleoedd sydd â chyfleusterau gwell, sy'n cyd-fynd â'r gofynion gweithredu. Bydd hyn yn creu arbedion parhaus drwy leihau costau rhedeg ac yn creu incwm drwy gael gwared ar ystad sy'n ormod.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?

Amcan y bwriad i gau yw sicrhau ystad sy'n bodloni egwyddorion ystadau diwygio GLITEM, a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y cynnig hwn yn lleihau'r capasiti sy'n ormod ac yn sicrhau bod yr ystad yn cyd-fynd â'r gofynion gweithredu. Mae'n ceisio gwella gwasanaeth cwsmeriaid drwy gyfeirio gwaith at lysoedd a thriwlynlysoedd sydd â chyfleusterau gwell, a sicrhau bod pawb yn cael mynediad at gyfiawnder. Bydd arbedion yn cael eu creu drwy leihau'r costau rhedeg a bydd hyn yn galluogi GLITEM i barhau i ddarparu gwasanaeth o safon a lleihau'r gwariant yr un pryd. Caiff referniw ei greu drwy waredu'r ystad llysoedd a thriwlynlysoedd.

Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ffyrdd eraill yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawndad dros yr opsiwn a ffafir (mae rhagor o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)

Mae'r opsiynau canlynol wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 0: Gwneud dim byd (achos sylfaenol)

Opsiwn 1: Cau safleoedd yn unol ag egwyddorion GLITEM, gan ystyried cyfyngiadau gweithredol a daearyddol

Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffafir gan ei fod yn cyd-fynd yn well â gweledigaeth strategol ystad GLITEM ac yn creu arbedion ariannol i'r adran. Yn dilyn ymgynghoriadau o fewn GLITEM a oedd yn cynnwys tystiolaeth strategol a dadansoddol, cytunwyd bod y cynigion i gau yn weithredol hyfyw

A fydd y polisi yn cael ei adolygu? Ni fydd yn cael ei adolygu. Os yw'n berthnasol, pennwch ddyddiad yr adolygiad: Mis/Blwyddyn

A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?	Bydd / Na fydd / Amh				
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn o fewn ei gwmpas? Os nad yw sefydliadau micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth.	Micro Ydy / Nac ydy	< 20 Ydy/Nac ydy	Bach Ydy/Nac ydy	Canolig Ydy/Nac ydy	Mawr Ydy/Nac ydy

Beth fydd y newid cyfwerth â CO₂ mewn allyriadau nwyon tŷ gwyr? (cyfwerth â miliwn tunnell o CO₂)

Wedi'i fasnachu:

Heb ei fasnachu:

Rwyf wedi darllen yr Aseiad o Effaith ac rwyf wedi fy modloni ei fod, ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, yn rhoi barn resymol am gostau, buddion ac effaith debygol yr opsiynau pennaf.

Llofnod y SELECT SIGNATORY cyfrifol:

..... Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 1

Disgrifiad:

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2013	Blwyddyn Sylfaen y Gwerth Presenno	Cyfnod mewn Blynnyddoedd 10	Budd Net (Gwerth Presenno (PV)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif Gorau: £200

COSTAU (£m)	Cyfanswm Pris Trosiannol (Pris Cyson) Blynnyddoedd	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys Pris Trosiannol) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Gost (Gwerth Presenno)
Isel	-	5	-
Uchel	-		-
Amcangyfrif Gorau	£51m		£2m

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Byddai GLITEM yn ysgwyddo costau o ganlyniad i unrhyw waith galluogi (gan gynnwys newidiadau TGCh), gwaith angenrheidiol i baratoi llysoedd sy'n cael eu cau ar gyfer eu gwaredu, costau datgomiysnu TG, costau torri prydles, costau prosiect, costau staff sy'n gadael a throsglwyddo gwaith (e.e. costau cludo) o'r llysoedd sydd ar y rhestr cau. Bydd y llysoedd sy'n aros ar agor yn wynebu costau ychwanegol bob blwyddyn wrth gymryd llwyth gwaith y llysoedd sy'n cau.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae'n bosib y bydd defnyddwyr llysoedd a staff, y farnwriaeth,artneriaid system cyfiawnder troseddol (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r heddlu) a phartneriaid cyfiawnder sifil a thribiwnlysoedd sydd mewn ardaloedd gwledig yn wynebu costau uwch gan eu bod yn gorfod teithio ymhellach i'r llysoedd.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Pris Trosiannol (Pris Cyson)	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys Pris Trosiannol)	Cyfanswm y Budd (Gwerth Presenno)
Isel	-	2	-
Uchel	-		-
Amcangyfrif Gorau	£35m		£28m

Disgrifiad a graddfa'r buddion allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae llai o adeiladau'n golygu y bydd GLITEM yn elwa o gael llai o gostau rhedeg yn y dyfodol mewn rhent, costau staff, costau TG, cyfleustodau, gwasanaethau eiddo a chynnal a chadw, a gwariant arall mewn swyddfeydd. Bydd GLITEM hefyd yn cael referniw o werthu'r ystad.

Buddion allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Sicrheir effeithlonrwydd drwy restru gan fod y gwaith yn digwydd mewn llai o lysoedd. Mae'n bosib hefyd y bydd defnyddwyr yr ystad sy'n weddill yn gwneud llai o deithiau oherwydd bod llai o adeiladau llysoedd.

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol	Cyfradd disgownt(%)	3.5%
--	---------------------	------

Rhagdybir y bydd cyfran o'r costau gweithredu a'r costau staff yn cael ei harbed yn y safleoedd a fydd yn cau. Tybir y bydd y llwyth gwaith yn aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae gwerth y gwaith galluogi yn seiliedig ar arolygon safleoedd. Mae gwerth y cyfalaf a geir wrth werthu adeiladau yn seiliedig ar brisiadau tir a gall newid ar adeg y gwaredu.

ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (cyfwerth â blwyddyn) £m:			O fewn cwmipas OIOO?	Y mesur yn cael ei ystyried yn
Costau:	Buddion:	Net:	Ydy/Nac ydy	MEWN/ALLAN/dim cost net

Y Sylfaen Dystiolaeth

Amcan y polisi a chwmpas y prosiect

Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad Effaith hwn, sy'n cyd-fynd â phapur ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder *Cynnig ar ddarpariaeth ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr*, yn edrych ar yr opsiynau rhagarweiniol i gau canolfannau gwrandawiadau a llysoedd GLITEM yng Nghymru a Lloegr. Nod y polisi hwn yw gwella effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd ystad GLITEM gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r anghenion gweithredu.

Y Rhesymeg

2. Yn 2010, cynhaliodd GLIEM adolygiad o ystad llysoedd o dan Raglen Adolygu Ystad y Llysoedd (CERP). Yn sgil yr adolygiad cafwyd ymgynghoriad ym mis Mehefin 2010 ac ymateb gan y llywodraeth ym mis Rhagfyr 2010 a gadarnhaodd y byddai 141 o lysoedd yn cau fesul cam mewn rhaglen rhwng mis Ebrill 2011 a mis Medi 2014. Seiliwyd CERP ar gyfres o egwyddorion ystadau cenedlaethol a'r bwriad oedd cynyddu'r modd roedd llysoedd yn cael eu defnyddio a lleihau costau. Dim ond llysoedd ynadon a llysoedd sirol roedd rhaglen CERP yn bwriadu eu cau.
3. Unwyd GLIEM a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ym mis Ebrill 2011 ac arweiniodd hynny at ystad gyfunol fwy, gyda chryn dipyn yn ormod o gapasiti. Byddai gweithio mewn nifer gyfunol o adeiladau mwy yn galluogi GLITEM i ddefnyddio'r ystad yn fwy deallus a hyblyg, a byddai hynny'n sicrhau arbedion sylweddol drwy lai o gostau rhedeg ar yr ystad yn gyffredinol a chryn dipyn yn llai o bobl yn gyffredinol yn gweithio ar draws ôl troed optimwm. Bydd Prosiect Diwygio'r Ystad yn gwella'r modd y defnyddir yr ystad ac yn mynd i'r afael â'r gormodedd o gapasiti heb orfod dibynnu ar newidiadau ym maes TG neu brosesau busnes.

Amcan y Polisi

4. Bydd y prosiect yn bodloni amcanion ar draws tri maes: gwerth am arian; mynediad at gyfiawnder; ac effeithlonrwydd tymor hir.
 - Cyflawnir *gwerth am arian* i'r trethdalwr drwy'r ffyrdd canlynol:
 - a) Lleihau cost rhedeg yr ystad yn awr ac yn y dyfodol
 - b) Sicrhau cymaint o gyfalaf ag y bo modd wrth waredu adeiladau, er mwyn ail-fuddsoddi yn yr ystad
 - Sicrheir *mynediad at gyfiawnder* drwy sicrhau bod unrhyw lys yr ystyrir ei gau o fewn pellter rhesymol at drafnidiaeth gyhoeddus i lys sy'n cael ei gadw ar agor.
 - Hwylusir *effeithlonrwydd* yn y tymor hwy drwy'r ffyrdd canlynol:
 - a) Gwrando'r un faint o achosion mewn ystad sydd wedi'i had-drefnu
 - b) Cynnal capasiti o fewn ystadau
 - c) Cadw adeiladau mwy y gellir eu huwchraddio'n rhwydd

Cwmpas

5. Bydd ystad canolfannau gwrandawiadau yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd ar gyfer y prosiect hwn. Yn benodol, bydd cwmpas y prosiect yn cynnwys y canlynol:
 - Ceisio gwella'r modd o ddefnyddio drwy ad-drefnu'r ystad bresennol
 - Ystyried pob awdurdodaeth
 - Ystyried pob rhanbarth
6. Ni fydd y canlynol yn rhan o'r cwmpas.
 - Cau adeiladau y gellid eu defnyddio fel canolfannau gwrandawiadau mawr aml-awdurdodaeth mewn unrhyw fodel gweithredol yn y dyfodol a ddatblygir gan GLITEM;

- Cau adeiladau a fyddai'n dibynnu ar bolisi neu newidiadau gweithdrefnol sylweddol iawn i bolisi gweithredu neu weithdrefnau llysoedd.
 - Adeiladau gweinyddol yn ystad GLITEM, ac eithrio lle y gallent gael staff neu swyddogaethau gweinyddol o ganolfannau gwrandawiadau sy'n cael eu cau fel rhan o'r prosiect;
 - Ni ddylid ystyried gwelliannau proses busnes na uwchraddio systemau TG, ac eithrio ar gyfer gweithredu prosesau safonol presennol a systemau TG mewn lleoliadau gwahanol.
7. Cyfeirir at bob lleoliad sy'n cynnal gwrandawiadau (llysoedd a thribiwnlysoedd) fel "adeiladau" yn y ddogfen hon drwyddi draw. Mae unrhyw leoliad sy'n cefnogi gwaith y safleoedd gwrandawiadau hyn (e.e. staff gweinyddol) wedi cael eu heithrio ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm yr "adeiladau".

Egwyddorion GLITEM

8. Rhaid i benderfyniadau a wneir fel rhan o gamau cyntaf diwygio'r ystad fod yn gyson â'r egwyddorion canlynol:

Sicrhau Gwerth am Arian

9. Lleihau cost rhedeg yr ystad yn awr ac yn y dyfodol.
10. Sicrhau cymaint o gyfalaf ag y bo modd o'r gormodedd o ystad, er mwyn ei ail-fuddsoddi yn GLITEM.

Sicrhau mynediad at gyfiawnder

11. Sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith rhaglen gau bosib ar ddefnyddwyr proffesiynol a lleyg y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan ystyried amseroedd teithiau i ddefnyddwyr, yr her o sicrhau mynediad mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw gamau lliniaru, gan gynnwys systemau TGCh modern a system restru fwy hyblyg, pan fydd teithiau'n gryn dipyn hirach.
12. Ystyried anghenion defnyddwyr ac yn benodol, dioddefwyr, tystion a'r bobl hynny sy'n agored i niwed.
13. Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Eryl y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Heddlu a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).

Hwyluso effeithlonrwydd yn y tymor hwy

14. Dibynnu llai ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ar adeiladau'r ystad sy'n anodd ac yn ddrud i'w gwella neu eu huwchraddio;
15. Symud tuag at ystad sydd ag adeiladau mwy a hwyluso system restru fwy effeithlon a hyblyg ar gyfer busnes llysoedd a thribiwnlysoedd ond gan roi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr hefyd ynghylch pa bryd y caiff eu hachosion eu clywed;
16. Gwella'r gallu i ddefnyddio'r ystad yn hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd;
17. Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiadau penodol, gan geisio cyfleoedd i ganoli swyddogaethau swyddfa gefn, lle mae modd iddynt gael eu gweithredu fwyaf effeithlon;
18. Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system gyfan, manteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
19. Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon lle bynnag y bo modd ni waeth beth yw'r ffiniau gweinyddol presennol.

Grwpiau yr effeithir arnynt

20. Y grwpiau y gallai'r cynigion hyn effeithio arnynt yw adrannau'r llywodraeth, defnyddwyr llysoedd a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, fel y nodir isod:
- Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a chyrrff hyd braich, gan gynnwys:
 - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS) gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion (PECS).
- Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
- Cyngor Dedfrydu
- Y Farnwriaeth (gan gynnwys yr Ynadaeth)
- Cymdeithas Clercod yr Ynadon
- Adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys:
 - Y Swyddfa Gartref
 - Trysorlys EM
- Defnyddwyr eraill y llys, gan gynnwys:
 - Cyfreithwyr / Bargyfreithwyr / Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol
 - Dioddefwyr troseddau
 - Tystion troseddau
 - Troseddwyr
- Sefydliadau eraill, gan gynnwys:
 - Gwasanaeth Erlyn y Goron
 - Heddluoedd
 - Y Bwrdd Parôl
 - Awdurdodau Lleol
- Y cyhoedd
- Busnesau lleol

Sail resymegol economaidd dros ymyrryd

21. Mae'r sail resymegol economaidd gonfensiynol dros gael y llywodraeth i ymyrryd yn seiliedig ar ddadleuon ynghylch effeithlonrwydd neu degwch. Bydd y llywodraeth yn ymyrryd os tybir bod methiannau o ran y ffordd y mae marchnad yn gweithredu ("methiannau marchnad") neu os yw'n awyddus i gywiro gwyradau sefydliadol presennol ("methiannau'r llywodraeth"). Bydd y llywodraeth yn ymyrryd hefyd am resymau tegwch. Yn yr achos hwn, byddai ymyrryd yn cael ei gyfiawnhau'n bennaf ar sail effeithlonrwydd.
22. Nod y cynnig hwn i newid y ddarpariaeth o wasanaethau llysoedd yng Nghymru a Lloegr yw mynd i'r afael â'r amcan o sicrhau effeithlonrwydd. Mae gormod o gapasiti ac nid yw rhai llysoedd yn cael eu defnyddio ddigon, sy'n golygu bod darpariaeth aneffeithlon o wasanaethau llysoedd. Nid yw hyn yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Byddai lleihau maint ystad GLITEM yn mynd i'r afael â'r aneffeithlonrwydd hwn, ac yn sicrhau bod y capasiti ar gael yn unol â'r galw.

Egwyddorion sy'n sail i ddadansoddiad cost a budd

23. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi, cyn belled ag y bo modd, yr effeithiau â gwerth ariannol a heb werth ariannol, a'r nod yw deall beth fydd yr effaith net ar gymdeithas os newidir ystad GLITEM. Gan nad yw manylion polisi'r cynigion wedi'u cwblhau eto, nid yw'r Asesiad Effaith hwn yn gallu dweud yn union beth fydd y costau a'r buddion. Byddwn yn diweddarau ein hamcangyfrif o effaith y cynigion hyn ar gostau a buddion wrth iddynt gael eu datblygu ymhellach.
24. Mae dadansoddiad o gost a budd yn yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei ddehongli'n eang, i gynnwys costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, gyda sylw teg i'r rheini sydd heb werth ariannol.
25. Cymru a Lloegr yw cwmpas daearyddol yr Asesiad Effaith hwn.
26. Ar gyfer nifer fach o feysydd, nid oes data digonol i fesur y costau a'r buddion. Yn yr achosion hyn, rydym wedi nodi'r hyn a gredwn i fod yn gostau a buddion heb fod wedi llunio amcangyfrif meintiol.

Opsiynau polisi

Opsiwn Polisi 0: Gwneud dim byd

27. Mae'r opsiwn "gwneud dim byd" yn nodi'r rhagdybiaethau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud ynghylch yr effaith yn y dyfodol pe na fyddai camau yn cael eu cymryd ynghylch darpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.
28. Ar hyn o bryd, mae GLITEM yn gweithredu mewn 460 o adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd (y cyfeirir atynt fel adeiladau o hyn ymlaen) ar draws Cymru a Lloegr. Disgrifir ystad bresennol GLITEM yn Nhabl 1.

Tabl 1: ystad bresennol GLITEM

	Y Goron	Ynadon	Sirol	Tribiwnlys	Cyfun	Cyfanswm
Llundain	9	24	15	11	1	60
Canolbarth Lloegr	6	35	7	9	12	69
Gogledd-ddwyrain Lloegr	4	31	12	15	8	70
Gogledd-orllewin Lloegr	5	29	10	9	10	63
De-ddwyrain Lloegr	11	39	22	13	12	97
De-orllewin Lloegr	2	28	5	8	15	58
Cymru	4	18	10	5	6	43
Cyfanswm	41	204	81	70	64	460

Nid yw hyn yn cynnwys adeiladau tribiwnlysoedd yn yr Alban a'r Grŵp Goruchaf Lys

Opsiwn Polisi 1: Ad-drefnu ystad mewn cytundeb â Chyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLITEM

29. Ad-drefnu ystad GLITEM yn unol ag egwyddorion a sefydlwyd gan Fwrdd GLITEM. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â 125 o adeiladau.
30. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys cynigion i gau 91 o adeiladau. Ar ben hynny, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth am 31 achos o gyfuno, ac nid oes angen ymgynghori ynghylch y rhain, yn ogystal â 3 adeilad yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn flaenorol ac y cymeradwywyd ar gyfer eu cau.
31. O blith y 125 adeilad, mae 9 o'r rhain yn golygu newid swyddogaeth (newid awdurdodaeth yn llwyr neu lys cyfun yn cau swyddogaeth llys sirol) ac yn Ne-orllewin Lloegr dim ond un o Lysoedd Ynadon Gogledd Avon neu lysoedd Sirol ac Ynadon Caerfaddon a fydd yn cau. Felly, mae hynny'n golygu y byddai uchafswm o 115 o adeiladau nad oes eu hangen mwyach. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol wedi cytuno ar y rhestr hon, gan ymgorffori tystiolaeth strategol a dadansoddol. Mae'r rhestr o'r adeiladau y cynigir eu bod yn cau neu'n cyfuno ar gael yn y ddogfen ymgynghori ategol.
32. Mae Tabl 2 yn dangos y rhestr a gynigir o adeiladu nad oes eu hangen ar GLITEM mwyach, wedi'u trefnu yn ôl ystad canolfannau gwrandawriadau a rhanbarth.

Tabl 2: Adeiladau nad oes eu hangen mwyach ar GLITEM o dan Opsiwn 1

	Y Goron	Ynadon	Sirol	Tribiwnlys	Cyfun	Cyfanswm
Llundain	0	5	3	1	0	9
Canolbarth Lloegr	0	11	4	1	1	17
Gogledd Ddwyrain Lloegr	0	5	5	6	0	16
Gogledd Orllewin Lloegr	0	10	6	0	1	17
De Ddwyrain Lloegr	1	11	5	5	2	24
De Orllewin Lloegr	0	7	3	5	2	17

Cymru	1	6	5	1	2	15
Cyfanswm	2	55	31	19	8	115

Nid yw hyn yn cynnwys adeiladau tribiwnlysoedd yn yr Alban a'r Grŵp Goruchaf Lys

33. O'r adeiladau a restrwyd yng Nghymru yn nhabl 2, ymgynghorwyd ynghylch 3 yn flaenorol, ac fe'u cymeradwywyd ar gyfer eu cau; cymeradwywyd Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili ar gyfer eu cau ar 9 Gorffennaf. Mae cau Llys Sirol y Rhyl yn ddibynnol ar gymeradwyo cau Llys Ynadon Prestatyn o fewn yr ymgynghoriad hwn.
34. Mae pob dadansoddiad yn y ddogfen hon yn cynnwys y safleoedd hyn.
35. Mae'r naw newid swyddogaeth i'w gweld yn y rhanbarthau canlynol; Llundain (1), Canolbarth Lloegr (1), Gogledd-orllewin (3), De-ddwyrain Lloegr (2), De-orllewin Lloegr (1) a Chymru (1).

Costau a buddion yr opsiynau

36. Mae'r costau a'r buddion canlynol wedi cael eu hystyried fel effeithiau posibl o dan Opsiwn 1.

Costau

Costau trosiannol (â gwerth ariannol)

37. Ar gyfer GLITEM, bydd costau trosiannol yn codi yn sgil:

- *Gwaith galluogi*: Mae hyn yn cynnwys ail-ffurfweddu ystafelloedd gwrandawiaidau mewn adeiladau lle mae gwaith yn cael ei wneud arnynt, i sicrhau bod mwy o le neu i wella cyfleusterau ar gyfer delio â'r cynnydd disgwylidig yn y llwyth gwaith.
- *Costau gwaredu*: Costau sy'n gysylltiedig â gwaredu adeiladau rhydd-ddaliadol, fel talu am wasanaethau cyfreithiol, prisiadau, hysbysebu a ffioedd cwmni gwerthu eiddo.
- *Dirywiadau*: Costau dychwelyd safle prydles i'w gyflwr gwreiddiol, drwy atgyweirio neu addasu
- *Costau adleoli*: Costau sy'n gysylltiedig ag adleoli gwaith, staff ac offer (fel cludo dogfennau) rhwng adeiladau.
- *Taliadau gadael prydles*: Cyfanswm gweddill y taliadau rhent ar gytundebau prydles
- *Costau'r prosiect*: Cost economaidd staff ac adnoddau penodol ar gyfer cyflawni Prosiect Diwygio'r Ystad.

Costau trosiannol (heb werth ariannol)

38. Ar gyfer GLITEM, bydd costau heb werth ariannol yn codi unwaith yn sgil:

- Costau "cyfarwyddo ac ymwbyddiaeth": Bydd costau cyfarwyddo ac ymwbyddiaeth yn codi i ddefnyddwyr llysoedd yn gysylltiedig â lle mae'r llys agosaf iddynt. Yn yr un modd, gall gymryd amser i staff ymgartrefu yn eu gweithle newydd, yn enwedig gan fod rhai arferion gwaith ychydig yn wahanol rhwng llysoedd. Er nodi'r pwynt hwn, rhagwelir mai effaith fach iawn a gaiff hyn.
- Dileu swydd: O ganlyniad i'r cynigion, bydd rhai aelodau staff yn cael eu trosglwyddo i weithleoedd newydd, a bydd aelodau eraill yn cymryd tâl dileu swydd gwirfoddol neu orfodol. Bydd cost ariannol i'r llywodraeth yn sgil y taliadau dileu swydd hyn. Rhagdybir y bydd staff sy'n gadael y sefydliad yn dod o hyd i gyflogaeth arall ac y bydd taliadau dileu swydd yn sicrhau y gwneir iawn yn llwyr â staff am y cyfnod disgwylidig y byddant yn ddi-waith cyn dod o hyd i swydd newydd. Felly, nid oes gwerth ariannol i'r costau hyn yn y gwerthusiad economaidd.

Costau parhaus (gwerth ariannol)

Llwyth gwaith GLITEM

39. Bydd costau parhaus â gwerth ariannol yn codi oherwydd costau ychwanegol sy'n ymwneud â llwyth gwaith mewn adeiladau lle mae gwaith yn cael ei wneud arnynt, er enghraifft argraffu a phostio.

Hefyd, bydd costau barnwrol yn cael eu trosglwyddo (gan gynnwys yr ynadaeth) o adeiladau sy'n cau i adeiladau sy'n derbyn, ond nid ydym yn mesur hwn gan ei fod yn fater o drosglwyddo cost.

Costau parhaus (heb werth ariannol)

Costau amser teithio i ddefnyddwyr ac asiantaethau eraill

40. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r llysoedd ynadon a'r llysoedd sirol yn achlysurol - dioddefwyr, tystion, rhai aelodau o'r cyhoedd a chwmnïau masnachol - gall costau teithiau gynyddu o ganlyniad i'r rhaglen cau llysoedd os yw llysoedd eraill 'sy'n derbyn' ymhellach i ffwrdd o'r llysoedd sy'n cau. I rai – cyfreithwyr, bargyfreithwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron), Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) a'r Heddlu – mae'n bosib y byddai mynd ati'n well i gynllunio gweithgareddau llysoedd yn strategol mewn llai o ganolfannau llysoedd sy'n fwy o ran maint yn gwneud iawn am y costau hyn (gan gynnwys amser a theithio) ac yn golygu y byddai rhai defnyddwyr yn teithio llai o weithiau i'r llysoedd. Mae model amser teithio wedi'i ddefnyddio i ddadansoddi effaith y cynigion hyn ar amser teithio (gweler Effaith ar amser teithio). Isod, disgrifir yr effeithiau heb werth ariannol ar asiantaethau eraill:

Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion (PECS)

- Mae gwaith PECS yn cynnwys symud carcharorion rhwng dalfeydd yr heddlu, llysoedd a charchardai. Yn yr un modd â defnyddwyr eraill y llysoedd, bydd achosion y sawl ar remand yn cael eu rhestru mewn adeiladau llys eraill. Os bydd yr adeilad llys newydd gryn dipyn i ffwrdd o'r carchar y cedwir y sawl sydd ar remand, gall hyn olygu cost i Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a thaith hirach i'r sawl sydd ar remand sy'n cael ei gludo.
- Er y bydd angen cludo nifer o bobl sydd ar remand ychydig ymhellach i adeiladau llysoedd, gwneir iawn am hyn drwy gadw pobl eraill ar remand ychydig yn nes i adeiladau llysoedd a fyddai'n gwrando eu hachosion yn awr. Byddai hyn o bosib yn arwain at effaith fach yn gyffredinol. Byddai angen llai o deithiau ar y cyfan, oherwydd y byddai nifer lai o ganolfannau gwrandawiaid yn weddill ar ôl y rhaglen ddiwygio hon.

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Yn ogystal â newidiadau i hyd amseroedd teithio, bydd hyn yn effeithio ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol lle maent yn rhannu swyddfeydd gyda GLITEM. Lle y bo'n bosib, mae modd rhoi staff y gwasanaeth prawf yn adeiladau eraill GLITEM (a fydd yn cynnwys costau symud staff, dogfennau a TG) er mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd angen i'r gwasanaeth prawf ddod o hyd i rywle arall. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio lleihau'r effeithiau negyddol ar staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- Os oes bwriad i gau llys sydd â chyfleusterau cysylltu â throseddwyr, byddai angen dod o hyd i gyfleuster arall, naill ai yn y llys sy'n derbyn neu mewn lleoliad gerllaw. Gallai hyn arwain at gostau ychwanegol. Mae'n bosib y bydd staff y gwasanaeth prawf nad ydynt yn gweithio yn adeiladau GLITEM y bwriedir eu cau, ond sy'n teithio i'r adeiladau hyn, yn gwneud llai o deithiau oherwydd bod ystad canolfannau gwrandawiaid GLITEM wedi'i chyfuno. Mewn rhai achosion, gall staff deithio ymhellach os yw'r llys arall sy'n derbyn gryn dipyn ymhellach.
- Byddwn yn ceisio gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddeall effaith y newidiadau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae unrhyw fodel cyflawni newydd yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau prawf yn debygol o arwain at newidiadau i leoliad staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, pa un ai bod y llysoedd yn cau neu beidio.

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)

- Mae'n bosib y bydd teithiau staff CAFCASS i'r llys yn hirach a fydd yn arwain at fwy o gostau cysylltiedig. Mae'n bosib y gellir gwneud iawn am hyn drwy amseroedd teithio byrrach os yw llysoedd mewn ardaloedd mwy pellennig yn cau a'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i lysoedd sy'n nes at leoliadau CAFCASS.

Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu

- Mae'n bosib y bydd teithiau staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu i'r llys yn hirach a fydd yn arwain at fwy o gostau cysylltiedig. Mae'n bosib y gellir gwneud iawn am hyn drwy amseroedd teithio byrrach os yw llysoedd mewn ardaloedd mwy pellennig yn cau a'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i lysoedd sy'n nes at leoliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Heddlu.

Busnes Lleol

41. Mae'n bosib y bydd busnesau sy'n gweithio mewn ardaloedd gerllaw llysoedd sy'n cau yn gweld cwmp mewn gweithgaredd, ond mae'n bosib y gwneir iawn am hyn drwy gynnydd mewn gweithgaredd ar gyfer busnesau sydd gerllaw adeiladau sy'n derbyn.

Buddion

Buddion Trosiannol (â gwerth ariannol)

42. Ar gyfer GLITEM, mae'r buddion trosiannol yn cynnwys:

- *Refeniw o werthu eiddo:* Amcangyfrifwyd mai gwerth gwaredu pob adeilad rhydd-ddaliadol y bwriedir ei gau yw £35 miliwn yn yr opsiwn a ffafrir. Dim ond pan fydd y llysoedd hyn wedi cael eu gwerthu y byddwn yn gwybod beth yw'r gwerth alldro wrth eu gwaredu yn y pen draw, a bydd hyn yn dibynnu ar yr amodau macroeconomaidd ar y pryd.

Buddion Parhaus (â gwerth ariannol)

43. Ar gyfer GLITEM, mae'r buddion parhaus yn cynnwys:

- *Arbedion o gostau gweithredu is:* Fel cyfleustodau, rhenti, gwasanaethau eiddo, cynnal a chadw, gwariant swyddfa ac eitemau tebyg. Amcangyfrifir mai £24 miliwn y flwyddyn fydd cyfanswm net yr arbedion ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys TAW ar gyfer y gwerthusiad economaidd. Gweler rhagor o fanylion yn Nhabl 3.
- *Arbedion o ran costau staff:* Oherwydd llai o ddyblygu rolau staff llysoedd yn yr adeiladau sy'n derbyn. Amcangyfrifir mai £6 miliwn y flwyddyn fydd cyfanswm net yr arbedion ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys TAW ar gyfer y gwerthusiad economaidd. Gweler rhagor o fanylion yn Nhabl 3.

Buddion Parhaus (heb werth ariannol)

44. Ar gyfer GLITEM, mae'r buddion parhaus heb werth ariannol yn cynnwys:

- Arbedion cost gweithredu a chostau eraill yn sgil strategaeth i gadw llysoedd mwy mewn lleoliadau strategol yn unig
 - Canoli swyddogaethau swyddfa gefn
 - Cyd-leoli gydag awdurdodaethau eraill neu bartneriaid eraill y System Cyfiawnder Troseddol - rhagwelir y bydd cyfuno swyddogaethau llys ar draws yr ystad yn helpu i sicrhau arbedion a fydd o fudd i ddefnyddwyr llysoedd o ran safonau mynediad uwch at gyfiawnder am werth gwell am arian.
45. Bydd y rhaglen a gynigir i gau llysoedd hefyd yn lleihau'r angen am wasanaethau gan swyddogion doc, a fydd yn arwain at arbedion (heb werth ariannol) i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr.
 46. Isod, ceir manylion pellach am y rhagdybiaethau ynghylch costau a buddion â gwerth ariannol a'r costau a'r buddion llawn ar gyfer pob Opsiwn Polisi.

Gwerthusiad Economaidd

Opsiwn Polisi 0: Gwneud dim byd

47. Yr opsiwn “gwneud dim byd” yw'r llinell sylfaen i'w defnyddio i werthuso opsiynau eraill. Nid oes costau na buddion ar gyfer yr opsiwn hwn. Cymerir ffigurau'r llinell sylfaen o alldro ariannol blwyddyn lawn ar gyfer 2013/14 ac wedi'i chwyddo i adlewyrchu prisiau 2015/16 gan ddefnyddio datchwyddydd CMC. Gan fod ansicrwydd ynghylch y llwyth gwaith yn y tymor canolig a'r tymor hir, rydym yn tybio na fydd newid ym maint y llwyth gwaith yn ystod cyfnod y gwerthusiad.

Opsiwn Polisi 1: Ad-drefnu ystad mewn cytundeb â Chyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLITEM

48. Mae Tabl 3 yn rhoi amcangyfrif o'r costau a'r buddion mewn termau real, gan dybio y bydd 115 o lysoedd a thribiwnlysoedd a nodir yn cau. Byddai oddeutu £30 miliwn y flwyddyn o arbedion sefydlog o dan yr opsiwn hwn (prisiau 2015/16, heb gynnwys TAW) gyda Gwerth Presennol Net 10-mlynedd o £200 miliwn.

Tabl 3: Amcangyfrif o'r costau a buddion ar gyfer Opsiwn 1

£m, prisiau 2015/16, heb gynnwys TAW a VED, gan gynnwys OB

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
Costau Trosiannol	-£10	-£40	-£1			-£51
Gwaith galluogi	-£5	-£27				-£33
Gwaredu	-£0.2	-£1				-£2
Dirywiadau	-£0.2	-£1				-£1
Adleoli	-£0.3	-£3				-£3
Taliadau Torri Prydles	-£0.2	-£3				-£3
Datgomisiynu TG	-£1	-£3				-£4
Costau'r prosiect	-£3	-£1	-£1			-£6
Buddion trosiannol		£5	£30			£35
Cyfalaf a ddaw i law (gwerthiant adeiladau)		£5	£30			£35
Buddion parhaus	£1	£14	£30	£30	£30	£106
Arbedion cost adeiladau (rhenti, cyfleustodau)	£0.5	£11	£24	£24	£24	£85
Arbedion costau staff (cyflogau)	£0.1	£2	£6	£6	£6	£20
Arbedion cost llwyth gwaith (effeithlonrwydd net)	£0.0	£0.1	£0.1	£0.1	£0.1	£0
Buddion net	-£9	-£21	£59	£30	£30	£90
Adnodd	-£6	-£9	£29	£30	£30	£75
Cyfalaf	-£3	-£13	£30			£15
Gwerth Presennol Net 10-mlynedd (£m, prisiau 2015/16)	£200					

Risgiau a Thybiaethau

49. Tybir nad oes dim newid yn nifer yr achosion llys, dim newid yn ffioedd y llys a dim newid yn amseroedd aros defnyddwyr y llys pan maent yn y llys. Ceir risg bod amseroedd teithio hirach yn effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu (gan arwain at gynnydd mewn amseroedd aros) neu ar gyfraddau effeithiolrwydd achosion (gan arwain at fwy o achosion aneffeithiol neu fwy o

achosion yn chwalu). Yn ogystal â hyn, gallai achosion ddechrau cronni a gallai amseroedd aros fynd yn uwch o ganlyniad i gynnydd mewn llwyth achosion.

50. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata ariannol gwirioneddol alldro ariannol GLITEM ar gyfer 2013/14 (wedi'i chwyddo i adlewyrchu prisiau 2015/16 gan ddefnyddio datchwyddydd CMC) a data llwyth gwaith (oriau gwrandawiadau) yn 2013/14.
51. Daw arbedion wrth i gostau gweithredu ddod i ben mewn llysoedd sydd wedi cau. Mae'r arbedion hyn yn cael eu llyncu'n rhannol gan gynnydd mewn costau yn sgil gwaith ychwanegol yn yr adeiladau sy'n derbyn. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod GLITEM yn gallu sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 88% o gostau rhannol-newidiol o leiaf (er enghraifft rheoli cyfleusterau a chyfleustodau) a 30% o gostau newidiol (er enghraifft argraffu a phostio). Mae'n bosib y bydd arbedion ychwanegol yn cael eu gwneud wrth i waith gael ei drosglwyddo os yw'r llysoedd sy'n derbyn yn fwy effeithlon na'r llysoedd sy'n cau (ar sail cost fesul awr gwrandawriad). Felly bydd yr adeiladau sy'n derbyn naill ai'n integreiddio'r gwaith newydd yn rhan o'u prosesau (mwy effeithlon) presennol, neu'n cynnal y gost bresennol o brosesu'r gwaith y maent yn ei gael gan adeiladau sy'n cau. Os yw costau derbyn gwaith newydd yn yr adeiladau presennol yn uwch na'r disgwyl, mae'n bosib y bydd y budd cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafirir yn llai na'r hyn a nodwyd.
52. Mae GLITEM wrthi'n cynllunio pryd yn union y byddai'r adeiladau'n cael eu cau, a bydd hyn yn dibynnu ar beth gellir ei gyflawni o safbwynt gweithredol a masnachol. O dan Opsiwn 1, disgwylir y bydd pob adeilad wedi'i gau erbyn mis Ebrill 2017. Tybir y bydd gwaith galluogi mewn llysoedd sy'n derbyn yn digwydd ar yr un pryd â dyddiad gadael y llys sy'n cau, ond yn ymarferol gallai hyn ddigwydd ynghynt.
53. Bydd derbyniadau cyfalaf (yn sgil gwerthu eiddo rhydd-ddaliadol) yn cael eu gwireddu flwyddyn ar ôl gadael yr adeilad, er mwyn ystyried amseriad y broses werthu.
54. Mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd staff GLITEM sy'n colli eu swydd o ganlyniad i'r Rhaglen Diwygio'r Ystad yn gallu dod o hyd i swyddi eraill. Felly mae taliadau dileu swydd yn cael eu trin fel trosglwyddiad economaidd yn unig.
55. Tybir bod modd dod o hyd i ddefnydd arall ar gyfer adeiladau (felly mae enillion trosiannol yn rhesymol). Mae gwerthoedd tybiedig yr asedau'n seiliedig ar y pris mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i roi ar yr ystad. Os yw gwerth yr asedau'n is na'r disgwyl, mae'n bosib y bydd budd cyffredinol yr opsiwn a ffafirir yn llai na'r hyn a nodwyd. O ran adeiladau sydd ar brydles ar hyn o bryd, rydym yn tybio y bydd GLITEM yn ysgwyddo costau trosiannol sydd yr un faint â'r taliadau sy'n weddill.
56. Mae costau'r prosiect yn cynnwys costau staff a threuliau tîm y prosiect. Os yw'n cymryd mwy o amser i gyflawni'r prosiect neu os oes angen mwy o adnoddau na'r disgwyl, mae'n bosib y bydd buddion cyffredinol pob opsiwn yn llai na'r hyn a dybiwyd.
57. Tybir na fydd costau barnwrol yn newid.
58. Dangosir gwerthoedd presennol net dros gyfnod arfarnu 10 mlynedd ac mewn termau real.
59. Tybir na fydd effaith o gwbl ar y gallu i wrando achosion yn llysoedd y Goron ac yn y llysoedd ynadon, ac felly ni fydd effaith ar y boblogaeth sydd yn y carchar ac ar remand.
60. Mae costau 2013/14 wedi cael eu chwyddo gan ddefnyddio datchwyddydd CMC y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer Mawrth 2015 i amcangyfrif costau 2015/16. Mae'r holl ffigurau ym mhrisiau 2015/16.
61. Ceir crynodeb o'r costau a'r buddion â gwerth ariannol yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4: Costau a buddion â gwerth ariannol (heb duedd optimistaidd)

Categori	Disgrifiad	Costau/buddion tybiedig
Costau trosiannol	Gwaith galluogi	£29 miliwn (prisiau 2015/16 heb gynnwys TAW)
	Costau gadael adeilad: -Costau gwaredu - gwerthu -Costau dirywiadau	Mae hyn yn cynnwys (oni bai fod y manylion yn cael eu haddasu yn ôl rhanbarth): Ar gyfer adeiladau Rhydd-ddaliadol yn unig: £7,000 y safle a 3% o werth tybiedig y safle (yn cynnwys TAW) Ar gyfer adeiladau ar brydles yn unig (heb gynnwys prydlesi MOTO): Data wedi'i gymryd o safle gan gofrestrydd safle, £60 am bob metr sgwâr ar gyfartaledd £7,500 ar gyfer pob ystafell llys (yn cynnwys TAW)
	-Costau adleoli -Taliadau gadael prydles	Swm gweddill y taliadau rhent
	Costau'r prosiect	£6 miliwn (prisiau 2015/16 heb gynnwys TAW)

Costau parhaus	Costau llwyth gwaith ychwanegol	Costau llwyth gwaith ychwanegol mewn adeiladau sy'n derbyn y gwaith, er enghraifft argraffu a phostio.
Buddion trosiannol	Gwaredu eiddo	Mae prisiadau eiddo rhydd-ddaliadol yn seiliedig ar amcangyfrifon o werthoedd tiroedd
Buddion parhaus	Gostyngiad yn y costau gweithredu	Arbedir yr arian rhent a'r ardrethi busnes mewn adeiladau sy'n cau. Bydd modd arbed cyfran o'r costau sy'n ymwneud â chyfleustodau, y costau cynnal a chadw a chostau'r staff hefyd mewn adeiladau sy'n cau.
	Gostyngiad yn y costau'n ymwneud â staff	Arbedion yn sgil gostyngiad yn nifer y staff wrth i rolau gael eu dyblygu mewn llysoedd sy'n derbyn

62. Mae nifer o'r costau a'r buddion yn ansicr. I gyfrif am duedd systematig ac amlwg arfarnwyr y prosiect i fod yn optimistaidd, rydym wedi defnyddio'r ffigurau tuedd optimistaidd yn Nhabl 5.

Tabl 5: Crynodeb tuedd optimistaidd

Categori	Math	Cost/budd	Tuedd optimistaidd dybiedig
Costau	Trosiannol	Gwaith galluogi (cyfalaf)	20%
		Gwaith galluogi (adnoddau)	8%
		Costau gadael adeilad:	
		Costau gwaredu	0%
		Dirywiadau	8%
		Costau adleoli	8%
	Taliadau Torri Prydles	8%	
	Costau'r prosiect (staff)	0%	
	Parhaus	Cynnydd mewn costau gweithredu mewn adeiladau sy'n derbyn (staff)	0%
Cynnydd mewn costau gweithredu mewn adeiladau sy'n derbyn (dim staff)		0%	
Cynnydd mewn amser teithio		0%	
Buddion	Trosiannol	Gwerthu tir/adeiladau	-20%
	Parhaus	Arbedion costau gweithredu mewn adeiladau sydd wedi cau (staff)	-5%
		Arbedion costau gweithredu mewn adeiladau sydd wedi cau (dim staff)	-5%
		Trosglwyddo arbedion costau i'r safle sy'n derbyn (staff)	-30%
		Trosglwyddo arbedion costau i'r safle sy'n derbyn (dim staff)	-30%

Sefyllfaoedd a materion sensitif

63. Mae'r adran hon yn ymdrin â phrif faterion sensitif yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio (Opsiwn 1).

Buddion trosiannol yn sgil gwerthu tir/adeiladau

64. Mae cyfanswm y derbyniadau cyfalaf yn ansicr oherwydd nid oes sicrwydd ynglŷn â beth fydd yr amodau economaidd yn y cyfnod gwaredu. Mae'r achos sylfaenol yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am werthoedd tebygol adeiladau rhydd-ddaliadol sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y farchnad.

65. Bydd pob gostyngiad o 10% yn y swm a dderbynnir ar ôl gwerthu'r adeiladau yn gostwng £3 miliwn ar y Gwerth Presennol Net. Fodd bynnag, mae gennym fwy o hyder y bydd modd gwireddu'r prisiadau sylfaenol tybiedig yn Llundain ac yn Ne Ddwyrain Lloegr.

Arbedion effeithlonrwydd sy'n ymwneud â chostau gweithredu

66. Bydd adeiladau sy'n derbyn gwaith ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion yn gweld cynnydd mewn costau yn sgil mwy o ddefnydd ar gyfleustodau, costau cynnal a chadw uwch a chostau newidiol uwch (er enghraifft argraffu, postio a defnyddio ffôn). Ond mae'r ffaith na fydd y safle sy'n cau yn gorfod talu'r costau hyn rhagor yn gwneud iawn am hyn. Os yw'r safle sy'n derbyn yn fwy effeithlon, bydd y gost ychwanegol yn llai na'r costau a arbedir drwy gau.

67. Amcangyfrifir y byddai'r arbedion effeithlonrwydd yn £0.1 miliwn y flwyddyn. Os na fydd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn cael eu gwireddu, bydd y Gwerth Presennol Net 10 mlynedd cyffredinol yn gostwng £1 miliwn.

Gwaith galluogi

68. Costau gwaith galluogi – y buddsoddiad yn y llys sy'n derbyn i allu delio â gwaith y llysoedd sy'n cau – yw'r gost drosiannol fwyaf. Fodd bynnag, mae'n destun rhywfaint o ansicrwydd gan fod yr holl gostau yn seiliedig ar amcangyfrifon sy'n deillio o arolygon y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a dim ond ar ôl i'r broses gaffael ddechrau y bydd modd cael gwybod faint yn union o fuddsoddiad fydd ei angen.
69. Cyfanswm costau'r gwaith galluogi ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yw £33 miliwn, a bydd cynnydd o 10% mewn gwaith galluogi yn gostwng £3 miliwn ar y Gwerth Presennol Net 10 mlynedd.

Casgliad







70. Mae'r dadansoddiad sensitifwydd yn dangos y byddai Opsiwn 1 yn dal yn gallu sicrhau Gwerth Presennol Net uchel a phositif er gwaetha'r meysydd ansicr hyn.

Effaith ar amser teithio

71. Un o brif effeithiau'r Rhaglen Diwygio'r Ystad fydd cynnydd yn yr amser teithio i'r llys/tribiwnlys i ddefnyddwyr posib y llys. Wrth i'w llys lleol gau, mae'n bosib y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr llys deithio ymhellach i fynd i wrandawriad. Rydym felly wedi modelu amseroedd teithio defnyddwyr llys er mwyn gallu gwerthuso'r effaith hon.
72. Mae model wedi cael ei ddatblygu i asesu amseroedd teithio o bob Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) oherwydd nid yw'n ymarferol cyfrifo amseroedd teithio o bob cyfeiriad unigol yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhwng 1,000 a 2,000 o bobl yn bennaf. Felly rydym yn cyfrifo'r amseroedd teithio o ganol pob LSOA i bob un o'u llysoedd/tribiwnlysoedd lleol (llys ynadon, llys y Goron, llys sirol, tribiwnlys cyflogaeth a thribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant) ac yn cloriannu'r rhain yn unol â data cyfrifiad 2011.
73. Rydym yn cyfrifo amseroedd teithio gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy ddefnyddio adnodd Trefnu Teithiau Transport Direct¹. Mae'r teithiau hyn yn cael eu cyfrifo gan dybio bod unigolyn yn mynd i'r llys erbyn 10am ac yn gadael am 5pm. Os nad oes dim trafndiaeth gyhoeddus ar gael ar gyfer y daith i'r llys a'r daith oddi yno, rydym yn tybio nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn ddarlun pesimistaidd, oherwydd mewn rhai achosion efallai mai'r ffaith nad yw'r adnodd Trefnu Teithiau wedi llwyddo i ddod o hyd i'r llwybr yw'r rheswm pam nad oes siwrnai ar gael.
74. Er y dylai'r broses modelu hon roi darlun eithaf cywir o'r effaith ar amser teithio, mae'n anochel y bydd rhai cyfyngiadau. Rydym wedi mapio pob LSOA i'r llys lleol a oedd yn ymddangos fwyaf priodol. Fodd bynnag, rhaid cofio mai ein hamcangyfrif gorau yw hwn, ac mae'n bosib nad ydym yn gywir bob tro. Bydd y mapio hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar y math o achos – dim ond un set o fathau o achosion rydym ni wedi'u modelu ar gyfer pob awdurdodaeth ac nid ydym wedi cynnwys lleoliadau lloeren. Yn olaf, mae'n bosib y bydd y pellter teithio yn amrywio yn ôl math o ddefnyddiwr llys – mae defnyddwyr sifil yn fwy tebygol o fynd i'w llys lleol, tra mae'n bosib y bydd angen i ddiodefnyddwyr a thystion fynd ymhellach na'u llys lleol agosaf.
75. Rydym yn modelu'r newid mewn amseroedd teithio ar ôl cau'r llys lleol i'r 'llys sy'n derbyn', gan ddilyn yr hyn a gynigwyd gan Gyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLITEM. Ar lefel genedlaethol (a ddangosir yn y siartiau isod), bydd y cwsmeriaid yn gweld cynnydd yn amseroedd teithio ar gyfer y rhan fwyaf o lysoedd a thribiwnlysoedd. Llysoedd ynadon sy'n wynebu'r effaith fwyaf, lle nad yw oddeutu 7% o'r boblogaeth oed gweithio (~2.5 miliwn o bobl) o fewn 30 munud o'r llys ar dtrafnidiaeth gyhoeddus erbyn hyn. Mae tua'r un ganran yn awr fwy na 60 munud i ffwrdd o'r llys. Fodd bynnag, mae 29% yn dal o fewn 30 munud o'u llys agosaf (mwy nag 80% mewn car). Mae'r effaith yn llai ar lysoedd sirol ac ar lysoedd y Goron, ac nid oes llawer o effaith ar dribiwnlysoedd.
76. Mewn rhai achosion, nid oes data amser teithio ar gael ar yr adnodd Trefnu Teithiau ar gyfer nifer o deithiau, gan amrywio o un rhanbarth ac awdurdodaeth i'r llall. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cyfrif am 0%-5% o bob taith wedi'i modelu, a hyd at oddeutu 50% o rai tribiwnlysoedd yn rhanbarth Canolbarth Lloegr. Rydym wedi amcangyfrif amseroedd teithio ar gyfer y teithiau hyn drwy ddefnyddio adeilad y llys agosaf yn yr un ardal leol, e.e. defnyddio Birmingham Civil Justice Centre yn lle Birmingham Centre City House. Os nad oedd llysoedd eraill yn yr ardal leol, defnyddiwyd cyflymder teithio rhanbarthol cyfartalog gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus a phellteroedd i gyfrifiannu'r amseroedd teithio, e.e. ar gyfer Rochdale.

¹ Mae'r ffigurau'n amodol ar Delerau ac Amodau Transport Direct (<http://www.transportdirect.info/Web2/About/TermsConditions.aspx>)

Siartiau 1-6: Effaith genedlaethol cau llysoedd ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



Tabl 6: Crynodeb o effaith genedlaethol cau llysoedd ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth

Mynediad gyda char	Cyn newidiadau		Ar ôl newidiadau	
	0-60mun	0-120mun	0-60mun	0-120mun
Llys y Goron	97%	100%	96%	99%
Llysoedd Ynadon	99%	100%	98%	99%
Llysoedd Sirol	99%	100%	97%	99%
Tribiwnlysoedd	83%	98%	83%	98%

Mynediad gyda thrafnidiaeth gyhoeddus	Cyn newidiadau		Ar ôl newidiadau	
	0-60mun	0-120mun	0-60mun	0-120mun
Llys y Goron	61%	94%	60%	93%
Llysoedd Ynadon	82%	97%	73%	95%
Llysoedd Sirol	78%	96%	72%	94%
Tribiwnlysoedd	40%	79%	39%	79%

77. Cyfrifwyd yr effaith ar amseroedd teithio i dribiwnlysoedd yn Nhabl 6 gan ddefnyddio cyfartaledd amhwysol amseroedd teithio i dribiwnlys cyflogaeth a thribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant.
78. Nid yw'r ffigurau cenedlaethol hyn yn dangos effaith sylweddol ar lefel ranbarthol gan fod mwy o lysoedd yn cael eu cau mewn rhai rhanbarthau neu gan fod llai o bobl yn byw yn y rhanbarth. Dangosir effeithiau rhanbarthol yn **Atodiad A**. Nid oes cynnydd arbennig o fawr mewn amseroedd teithio yn Llundain, er enghraifft, gan fod yno system trafndiaeth gyhoeddus dda sy'n ei gwneud yn gymharol hawdd i bobl fynd i lys gwahanol. Cymru, ar y llaw arall, sy'n gweld yr effaith fwyaf. Gan nad yw'r boblogaeth mor ddwys yng Nghymru, a bod llai o lysoedd yno, mae unrhyw achosion o gau yn debygol o olygu mwy o gynnydd mewn amseroedd teithio ar ôl cau llysoedd.
79. Ar lefel fwy lleol byth, bydd y darlun yn fwy amrywiol o lawer. Bydd y rheini sy'n byw yn nalgylch llys sy'n cau yn gweld effaith ar amseroedd teithio gan y bydd angen i'r bobl hyn deithio ymhellach i fynd i'r llys nesaf. Bydd yr effaith ar amser teithio yn amrywio gan ddibynnu ar y llys dan sylw. Bydd y rheini sy'n byw yn nalgylch llys ynadon sy'n cau yn gorfod teithio oddeutu 35 munud yn fwy ar gyfartaledd ar dtrafnidiaeth gyhoeddus o dan yr opsiwn a ffafrir. Fodd bynnag, ni fydd cau'r llysoedd yn effeithio o gwbl ar y rhan fwyaf o'r boblogaeth (91% ar gyfer llysoedd ynadon, 98% ar gyfer llysoedd y Goron, 92% ar gyfer llysoedd sifil sirol, 94% ar gyfer llysoedd teulu sirol, 99% ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth a 99% ar gyfer tribiwnlysoedd nawdd cymdeithasol a chynnal plant).

Effaith ar gydraddoldeb

80. Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") yn gofyn i Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i wneud y canlynol:
- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt); a
 - Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt).
81. Mae angen ystyried rhoi 'sylw dyledus' yn erbyn y naw "nodwedd warchoddedig" o dan y Ddeddf – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ail-aseinio rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth.
82. Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i bwysu a mesur sut mae'r cynigion polisi arfaethedig yn debygol o effeithio ar y nodweddion gwarchoddedig ac i gymryd camau cymesur i leihau neu i gyfiawnhau'r cynigion mwyaf negyddol a hyrwyddo'r rhai cadarnhaol.

Gwahaniaethu Uniongyrchol

83. Yn ôl ein hasesiad cychwynnol, nid yw'r polisi'n gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf gan ei fod yn berthnasol i bawb y mae Prosiect Diwygio'r Ystad GLITEM yn effeithio arnynt p'un a oes ganddynt nodwedd warchoddedig ai peidio; nid ydym o'r farn y byddai pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd y nodwedd warchoddedig yn sgil cynnig y polisi.

Gwahaniaethu Anuniongyrchol

84. Ymhlith defnyddwyr llys, mae rhai grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel yr eglurir isod, yn cael eu gorgynrychioli gan y cynigion. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'n cael ei sefydlu bod yr effeithiau hyn, mewn rhai achosion (er enghraifft, hyd y daith i'r llys) yn anfantais benodol, mae rhoi'r diwygiadau ar waith yn ymateb cymesur i gwrdd ag anghenion strategol y sefydliad.
85. Rydym wedi mynd ati i weld pa grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, a'u cymharu â phoblogaeth defnyddwyr llys drwyddi draw. Drwy wneud hyn gallwn weld a fydd unrhyw grwpiau penodol o bobl mewn sefyllfa arbennig o anfantais yn sgil y cynigion. Oherwydd y cyfyngiadau ar y data sydd ar gael ar ddefnyddwyr GLITEM, rydym wedi rhagdybio eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol (Cymru a Lloegr) maent yn dod ohoni.
86. Rydym wedi asesu'r data sydd ar gael ar nodweddion rhyw, oedran, anabledd, hil a chrefydd. Yn ôl ein hasesiad cyfredol, yn genedlaethol, mae'r rheini o gefndir Gwyn yn cael eu gorgynrychioli mewn ardaloedd wrth ymyl llysoedd y Goron (94%), y mae ymgynghoriad ar y gweill ynghylch eu cau, o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol (86%). Mae'r rheini o gefndiroedd Mwslemaidd ac Asiaidd yn cael eu gorgynrychioli hefyd i ryw raddau mewn ardaloedd lle mae llysoedd cyfun lleol (15% o'i gymharu â 7% a 12% o'i gymharu â 5% yn y drefn honno). Rydym wedi cyflwyno crynodeb o'n dadansoddiad rhanbarthol yn Atodiad B.
87. Mae'r dystiolaeth yn Nhabl 6 yn awgrymu na fydd cau llysoedd yn cael effaith anghymesur ar bobl y mae nodweddion gwarchoddedig rhyw, oedran ac anabledd yn berthnasol iddynt. Yn ogystal â hyn, nid ydym o'r farn y bydd cau llysoedd yn cael mwy o effaith ar y grwpiau penodol hyn o'u cymharu â'r boblogaeth genedlaethol drwyddi draw. Serch hynny, byddwn yn dal ati i asesu'r posibilrwydd y bydd cau llysoedd yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau hyn, gan roi sylw penodol i unrhyw dystiolaeth o gamwahaniaethu a/neu effeithiau ar gydraddoldeb a nodir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
88. Oherwydd cyfyngiadau ar y data sydd ar gael, nid ydym wedi llwyddo i asesu effeithiau ar y nodweddion gwarchoddedig sydd ar ôl, sef cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth. Ar ôl ystyried effaith y cynigion ar y grwpiau y mae'r data sydd ar gael ar eu cyfer yn gyfyngedig, nid ydym wedi nodi unrhyw wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol anghyfreithlon sy'n codi o'r cynlluniau i gau. Serch hynny, byddwn

yn dal ati i asesu'r effeithiau, gan roi sylw penodol i unrhyw dystiolaeth o gamwahaniaethu a/neu effeithiau ar gydraddoldeb a nodir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

89. Bydd y wybodaeth yn yr adran Effaith ar Amser Teithio (Siartiau 1-6 uchod) yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd y bydd cau llysoedd yn effeithio arnynt o fewn pellter teithio derbynol i'r llysoedd y mae gwaith yn cael ei drosglwyddo iddynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd nifer fach o bobl yn wynebu teithiau hirach i'r llysoedd newydd, ac y gallai hyn yn ei dro arwain at achosion o beidio ag ymddangos yn y llys.

Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

90. I'r graddau y mae'r polisi hwn yn ymestyn i ddefnyddwyr llys anabl, credwn fod y polisi yn gymesur, gan ystyried ei nod. Mae'n dal yn bwysig gwneud addasiadau rhesymol i bobl anabl i wneud yn siŵr eu bod yn cael cymorth priodol.
91. Er bod cyfran y bobl anabl y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn cyfateb yn fras i gyfran y bobl anabl yn y boblogaeth gyfan, mae'r angen i deithio ymhellach (naill ai mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus) yn debygol o gael effaith fwy ar bobl sydd ag anableddau penodol, fel y rheini sy'n cael anhawster symud. Yn yr un modd, er nad oes data i awgrymu bod mwy o bobl hŷn neu fenywod beichiog ym mhoblogaeth defnyddwyr llys na'r boblogaeth gyffredinol, gallai'r angen i deithio mwy gael mwy o effaith ar y grwpiau hyn. Mae modd gwella'r effeithiau hynny, i ryw raddau, drwy ddefnyddio rhai o'r mesurau lliniaru isod. Er enghraifft, pe bai mwy o wybodaeth ar gael ar-lein, gallai hynny leihau'r angen i deithio i'r llysoedd. Hefyd, gallai canolbwyntio adnoddau ar ganolfannau llysoedd mwy roi'r gallu i'r canolfannau hynny gael gwell cyfleusterau ar gyfer pobl anabl a phobl â phlant.
92. Mae'r potensial ar gyfer gwell effaith i bobl anabl, pobl hŷn a menywod beichiog wedi cael ei drin fel ffactor pwysig wrth asesu cymesuredd y cynigion, a bydd hyn yn cael ei ailystyried cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Aflonyddu ac erledigaeth

93. Nid ydym o'r farn bod risg o aflonyddu nac erledigaeth yn deillio o'r cynigion hyn.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

94. Rydym wedi ystyried sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion defnyddwyr llys sy'n rhannu nodwedd benodol, lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno. Bydd dibynnu llai ar adeiladau GLITEM sydd â chyfleusterau gwael a manteisio ar ystad fwy modern sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu gwell yn helpu i sicrhau effaith gadarnhaol i bob defnyddiwr, yn enwedig pobl ag anableddau.

Meithrin perthynas dda rhwng pobl

95. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn sy'n dangos ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynigion.

Defnyddwyr llys – effeithiau cenedlaethol

96. Rydym wedi edrych ar effeithiau tebygol ar gydraddoldeb mewn perthynas â defnyddwyr llys ar lefel genedlaethol a rhanbarthol drwy gymharu'r boblogaeth yn ardal leol y llysoedd y bwriedir eu cau a phoblogaeth defnyddwyr llys yn gyffredinol.
97. Nid oes gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chadw am nodweddion gwarchoddedig defnyddwyr GLITEM. Yn yr asesiad hwn, rydym wedi tybio bod pob defnyddiwr llys yn cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol y maent yn dod ohoni, gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011. Rydym wedi cymharu nodweddion gwarchoddedig y boblogaeth hon â phoblogaethau awdurdodau unedol neu ddsbarth a bwrdeistrefi Llundain sy'n berthnasol i'r cynigion i gau, yn ôl swyddogaeth y llys.
98. Ar lefel genedlaethol, mae nodweddion y rheini sy'n byw wrth ymyl llysoedd sy'n destun ymgynghoriad ynghylch eu cau yn eithaf tebyg i boblogaeth gyffredinol defnyddwyr llys posib (fel y dangosir yn Nhabl 6 isod). Yr un eithriad i hyn yw'r effaith fwy y bydd cau llysoedd cyfun yn ei chael ar y boblogaeth Asiaidd a Mwslamaidd. Cau llys cyfun yn Birmingham yw'r rheswm am hyn, gan fod y boblogaeth yno'n ddwys (mae gan y llys y potensial i wasanaethu mwy o bobl) a bod poblogaeth y

bobl Asiaidd a Mwslmaidd yn uchel. Ym mhob achos o gau llys, bydd pwys priodol yn cael ei roi ar nodweddion lleol.

Tabl 7: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, cymhariaeth poblogaeth genedlaethol:

		Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		2	55	31	19	8	115
Rhyw	Dyn	49%	49%	49%	49%	49%	49%
	Menyw	51%	51%	51%	51%	51%	51%
Oedran	0-15	19%	19%	19%	18%	21%	19%
	16-64	63%	64%	65%	67%	64%	65%
	65+	18%	17%	17%	15%	15%	17%
Anabledd	Anabledd	18%	19%	19%	19%	19%	18%
	Dim anabledd	82%	81%	81%	81%	81%	82%
Hil	Gwyn	94%	89%	88%	88%	75%	86%
	Cymysg	1%	2%	2%	2%	3%	2%
	Asiaidd	3%	5%	5%	4%	15%	7%
	Du	1%	3%	3%	4%	5%	3%
	Arall	1%	1%	1%	2%	2%	2%
Crefydd	Cristion	62%	62%	61%	58%	54%	59%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	1%	0%	0%
	Hindŵ	0%	1%	1%	1%	1%	1%
	Iddew	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	2%	4%	4%	4%	13%	5%
	Sikh	0%	1%	0%	0%	2%	1%
	Crefydd arall	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Dim crefydd	27%	25%	25%	30%	23%	25%
	Heb nodi	7%	7%	8%	7%	7%	7%

99. Cyflwynir crynodeb o'r effaith ar gydraddoldeb ar lefel ranbarthol yn **Atodiad B.** Mae'n dangos, er bod yr effaith ar ranbarthau, yn gyffredinol, yn gyson â'r effaith drwy'r wlad, ceir enghreifftiau lle mae'r effaith yn fwy oherwydd y ddemograffeg leol (h.y. ar raddfa lai nag yn rhanbarthol)

Diffynyddion, dioddefwyr a thystion

100. Mae cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder: *Race and the Criminal Justice System 2012 a Women and the Criminal Justice System 2013* yn dangos proffil rhyw a hil defnyddwyr llys a'r rheini yn y System Cyfiawnder Trosedd. Maent yn dangos bod dynion a'r rheini o grŵp ethnig Du yn cael eu gorgynrychioli ymhlith diffynyddion yn y llysoedd troseddol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol y maent yn dod ohoni. Mae data ar gyfer y rheini a ddedfrydwyd yn y llysoedd ynadon ac yn llysoedd y Goron rhwng 2012 a 2013 yn cadarnhau'r canlynol:

- Mae dynion yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rheini sydd wedi'u dedfrydu i garchar ar unwaith o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol sy'n 10 oed a hŷn (92% o'u cymharu â 49%).
- Mae'r rheini o grŵp ethnig Du hefyd yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rheini sydd wedi'u dedfrydu i garchar ar unwaith o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol sy'n 10 oed a hŷn (8% o'u cymharu â 3%).

101. Nid oes ffynhonnell ddata gynhwysfawr ar nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr a thystion a allai ddefnyddio'r llysoedd troseddol. Fodd bynnag, mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (2013/2014) yn dangos bod y grwpiau canlynol o bobl yn cael eu gorgynrychioli fel dioddefwyr trosedd o'u cymharu â phawb a gynhwyswyd yn yr arolwg:
- Y rheini rhwng 16 a 24 oed (25% o'r holl dioddefwyr o'u cymharu â 12% o bawb a gynhwyswyd yn yr arolwg)
 - Mae 19% o oedolion heb fod yn wyn wedi dioddef trosedd, o'u cymharu ag 17% o oedolion Gwyn.
102. Er bod grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol yn cael eu gorgynrychioli ymhlith dioddefwyr o bosib, nid ydym yn gallu mesur a yw'r orgynrychiolaeth yn cynnwys dioddefwyr a thystion sy'n defnyddio'r llysoedd troseddol. Felly mae'r casgliadau ynghylch yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar wahanol grwpiau o ddiodesfwyr a thystion yn ansicr.

Effaith ar ynadon

103. Mae data Adnoddau Dynol GLITEM yn dangos bod ynadon yn hŷn ac yn fwy tebygol o ddod o gefndir Gwyn na phoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr y maent yn dod ohoni. Mae data 31 Mawrth 2011 yn cadarnhau'r canlynol:
- Nid yw ynadon iau yn cael eu cynrychioli'n ddigonol: roedd 18% o'r ynadon oedd yn gwasanaethu yn 49 oed neu iau, roedd 30% rhwng 50 a 59 oed ac roedd 52% yn 60 oed neu hŷn. Mae'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth gyffredinol (rhwng 18 a 70 oed) yn 66%, 18% ac 16% yn eu trefn.
 - Yn yr un modd, nid oedd y rheini o gefndir ethnig DU, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (BAME) yn cael eu cynrychioli'n ddigonol chwaith. Roedd 8% o ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr wedi datgan eu bod yn dod o gefndir BAME. Mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrif diweddaraf bod grwpiau BAME yn cynrychioli 14% o'r boblogaeth gyffredinol (pob oed).
 - Nid oedd ynadon anabl yn cael eu cynrychioli'n ddigonol chwaith: mae 5% o ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr yn ystyried bod ganddynt anabledd, tra mai 18% o'r boblogaeth gyffredinol (bob oed) sy'n ystyried bod ganddynt anabledd neu broblem iechyd hirdymor sy'n cyfyngu llawer neu ychydig ar eu gweithgareddau bob dydd. Rydym yn cydnabod y gwahaniaethau yn y modd y diffinnir anabledd.
 - Yn unol â'r boblogaeth gyffredinol, roedd 51% o'r ynadon sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr yn fenywod.

Grwpiau eraill y bydd y rhaglen cau yn effeithio arnynt

104. Mae barnwyr a gweithwyr proffesiynol ym myd y gyfraith yn enghreifftiau o grwpiau eraill y gallai'r cynigion i gau effeithio arnynt. Mae Ystadegau'r Swyddfa Farnwrol² yn dangos bod dynion sy'n farnwyr, y rheini o gefndir Gwyn a'r rheini sy'n 50 oed neu'n hŷn yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r cyfreithwyr a'r bargyfreithwyr sy'n ymarfer yn fwy amrywiol, ond mae dynion yn cael eu gorgynrychioli yn y ddau broffesiwn^{3,4}.
105. O ran aelodau eraill o staff GLITEM, bydd tîm Adnoddau Dynol GLITEM yn cynnal asesiadau cydraddoldeb ar lefel Uned Busnes, a bydd yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hasesu'n llawn pan fydd yr effaith ar unigolion ym mhob safle o dan Opsiwn 1 wedi'i nodi.

Camau Lliniaru

106. Rydym yn sylweddoli, wrth i lysoedd gau, fod angen i ni ddal ati i foderneiddio a gwella'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwasanaethau rheng flaen. Mae angen i ni hefyd barhau i ddarparu addasiadau rhesymol i ddefnyddwyr y llys, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal i allu cael

² <http://www.judiciary.gov.uk/publications-and-reports/statistics>

³ <http://www.barcouncil.org.uk/about-the-bar/facts-and-figures/statistics/>

⁴ <http://www.lawsociety.org.uk/representation/research-trends/annual-statistical-reports/>

mynediad at gyfiawnder. Ceir nifer o gamau lliniaru rydym naill ai'n eu hystyried (neu sydd eisoes ar waith) a fydd yn helpu i leihau effaith cau llysoedd ar ddefnyddwyr y llys, gan gynnwys:

- Mae ein holl ganllawiau, ynghyd â gwybodaeth am brosesau penodol, ar gael ar-lein drwy Gov.uk a'r wefan Cyfiawnder. Byddai'r rhain yn cynnwys: lleoliadau, cyfarwyddiadau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y llys neu'r tribiwnlys perthnasol, cyfryngu, sut i wneud hawliad, sut i apelio, a sut i wneud cwyn. Mae'r adnoddau hyn ar y we hefyd yn cynnwys manylion cyfeirio a dolenni defnyddiol i ddefnyddwyr ar gyfer y canlynol er enghraifft: Resolution, National Family Mediation, Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, Cyngor ar Bopeth, Cyswllt Defnyddwyr, Ofcom ac Ofgem a mwy. Bydd gwybodaeth gyhoeddus yn cael ei hadolygu yn ôl yr angen.
- Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i foderneiddio'r dasg o gyflwyno gwasanaethau wyneb-yn-wyneb yn y Llysoedd Sifil a'r Llysoedd Teulu. Mae'r gwaith hwn yn mynd ati'n benodol i wneud y canlynol:
 - Cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau gwybodaeth priodol.
 - Cynyddu defnydd o wasanaethau ar-lein.
 - Osgoi teithiau diangen i'r llys i gwsmeriaid.
- Mae darparu canolfannau cyswllt a busnes ar gyfer rhai gwasanaethau (e.e. Canolfan Hawliadau Arian y Llys Sirol) yn golygu bod modd cael gafael ar wasanaethau drwy'r post a dros y ffôn tan y gwrandawriad (os oes angen gwrandawriad).
- Mae gwasanaethau ar-lein, er enghraifft Money Claims Online a Possession Claims Online yn rhoi mynediad ar-lein at wasanaethau hyd at y gwrandawriad (os oes angen).
- Mae Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod yn cael ei hyrwyddo pan fydd hynny'n briodol, sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar wrandawriadau llys.
- Mae addasiadau rhesymol ar gyfer anabledau'n cael eu gwneud mewn llysoedd yn unol â'r polisi presennol o'r un enw. Mae canllawiau ar gael i bob aelod o staff, gan gynnwys pwynt cyngori canolog.
- Defnyddir cyswllt fideo ar gyfer llysoedd troseddol fel a ganlyn:
 - Gall tystion yr heddlu ddefnyddio cysylltiadau byw i roi tystiolaeth mewn achosion. Mae'r rhain yn gweithio yn naw o ardaloedd y System Cyfiawnder Troseddol, a disgwylir y bydd mwy yn cael eu rhoi ar waith eleni.
 - Mae rhith lysoedd yn cael eu sefydlu mewn pedair ardal ar gyfer gwrandawriadau rhagarweiniol. Bydd diffynyddion yn ymddangos o orsaf heddlu yn y llys ynadon drwy gyswllt fideo.
 - Mae cyswllt fideo rhwng y carchar a'r llys yn gadael i ddiffynyddion ymddangos o'r ddalfa yn y llys ynadon ac yn Llys y Goron.
 - Ceir cyswllt fideo yn y llys er mwyn i dystion bregus allu rhoi tystiolaeth heb orfod wynebu'r diffynnydd.
 - Mae modd ystyried amseroedd cychwyn hwyrach ar gyfer gwrandawriadau os yw cwsmer yn rhoi gwybod i'r ganolfan gwrandawriadau y bydd yn broblem teithio i'r llys.

Casgliadau

107. Bydd y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd y bydd y rhaglen cau llysoedd yn effeithio arnynt o fewn pellter teithio rhesymol i'r llys a fydd yn derbyn y gwaith. Mae hyn yn golygu y bydd gan y rhan fwyaf o unigolion daith resymol i'r llys i fynd i wrandawriadau, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mewn achosion eithriadol gellir gohirio amser dechrau gwrandawriadau er mwyn caniatáu i unigolion gyrraedd yn hwyrach os bydd ganddynt broblemau teithio, ond byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos. Yn ôl y model amser teithio, ar gyfartaledd bydd 93% o'r boblogaeth yn dal yn gallu teithio i'r llys agosaf mewn llai nag awr mewn car, a bydd 59% yn gallu gwneud hynny gyda thrafnidiaeth gyhoeddus.
108. Er y gallai teithiau hirach effeithio ar rai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ein barn ni mae'n annhebygol y bydd hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y llys o dan anfantais benodol neu sylweddol, wrth ystyried na fyddant yn defnyddio'r gwasanaeth llysoedd a

thribiwnlysoedd yn aml iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau sydd, yn draddodiadol, yn cael eu cynnig wyneb yn wyneb yn ystod ymweliadau â'r llys bellach ar gael ar-lein. Hefyd bydd modd cynnal rhai gwrandawiadau llys dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo, ac mae defnyddwyr y llys yn cael cynnig opsiynau lleol eraill yn hytrach na gwrandawiadau llys (cyfryngu). Mae'r holl fesurau hyn yn lleihau'r angen i deithio i adeiladau'r llys i gael gafael ar wasanaethau GLITEM.

109. I'r rheini y bydd angen iddynt fynd i'r llys o hyd, cynigir addasiadau anabledd rhesymol a bydd mesurau eraill fel amser dechrau hwyrach ar gyfer gwrandawiadau llys yn lleihau'r effeithiau ar y bobl sy'n cael trafferth cyrraedd y llys.
110. Mewn nifer o achosion bydd gwasanaethau a chyfleusterau gwell ar gael yn y llysoedd sy'n derbyn. Felly, at ei gilydd teimlwn fod y diwygiadau arfaethedig i'r ystad ac unrhyw effeithiau dilynol yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod ddilys o sicrhau ystad llysoedd fforddiadwy ac effeithlon.

Profion Effaith Penodol

111. Mae'r profion sgrinio canlynol wedi cael eu cynnal ar gyfer yr opsiwn a ffafrir.

Asesu'r gystadleuaeth

112. Nid ydym yn rhagweld y bydd y rhaglen cau llysoedd yn cael effaith o bwys ar y gystadleuaeth. Yn benodol, nid ydym yn disgwyl y bydd y rhaglen cau llysoedd yn cyfyngu'r canlynol:

- Nifer y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol
- Gallu cyflenwyr i gystadlu
- Cymhelliant cyflenwyr i gystadlu'n frwd

113. Yn anuniongyrchol, mae'n bosib y bydd yn costio ychydig bach mwy i rai o ddefnyddwyr y llys gan y bydd rhaid iddynt deithio'n ymhellach i gyrraedd eu llys agosaf. Fodd bynnag mae'n debygol y bydd modd gwrthbwysu rhai o'r costau hyn - neu bob un ohonynt - yn erbyn manteision ystad lai a mwy strategol a fydd yn galluogi darparwyr gwasanaethau cyfreithiol i reoli eu gwaith yn well ar draws ystad sydd wedi'i chynllunio'n fwy strategol.

Prawf Effaith Amgylcheddol Ehangach

114. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd yr aer, ansawdd a lefel y dŵr, perygl llifogydd, bioamrywiaeth, tirwedd na sŵn. Gan ddefnyddio'r rhestr wirio a gyhoeddwyd gan DEFRA (<http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/sd-impact/>) mae pob effaith fawr bosib wedi cael ei hystyried.

115. *A fydd yr effeithiau a ragwelir ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr opsiwn polisi?* Mae'r polisi yn argymhell cau'r adeiladau sydd, yn gyffredinol, yn llai na'r llysoedd a fydd yn aros ar agor ac sydd mewn ardaloedd â phoblogaeth is. Gan fod y llysoedd/tribiwnlysoedd wedi'u rhannu dros ardal ddaeryddol wahanol iawn, nid yw'r llysoedd/tribiwnlysoedd hyn wedi cael eu dewis ar sail pa mor agos ydynt at yr arfordir na'r perygl o lifogydd. Nid oes bwriad i ddymchwel y llysoedd/tribiwnlysoedd ychwaith, ac ni fydd y ffaith eu bod yn cael eu gwaredu yn effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r holl adeiladau yn dod o dan Gynllun Addasu at Newid yn yr Hinsawdd yr adran, ac nid oes dim un ohonynt wedi'u nodi'n adeiladau sydd mewn perygl neu'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

116. *A fydd yr opsiwn polisi yn arwain at newid y costau ariannol, neu effeithiau amgylcheddol neu ieuchyd rheoli gwastraff?* Fel arfer, mae cynhyrchu gwastraff yn cael ei gysylltu â niferoedd staff yn hytrach na maint yr ystad; felly ni fydd unrhyw effaith arwyddocaol. Bydd mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu dros dro wrth wagio'r adeiladau, ond bydd yn cael ei waredu'n gynaliadwy yn unol â chanllawiau WRAP. Mae'r cynnydd dros dro hwn yn debygol o gael ei wrthbwysu yn erbyn y lefelau ychydig llai o wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu yn yr ystad lai.

117. *A fydd yr opsiwn polisi yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd yr aer?* Mae profion sgrinio cychwynnol yn dangos y bydd hyd cyfartalog teithiau i'r llys yn cynyddu o bosib yn sgil y rhaglen hon. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gynnydd yn cael effaith arwyddocaol ar effaith yr aer, a bydd modd gwrthbwysu amser teithio yn erbyn llai o deithiau i ystad sydd wedi'i chynllunio'n well yn strategol.

118. *A fydd yr opsiwn polisi yn golygu unrhyw newid o bwys i ymddangosiad y tirlun neu'r treflun?* Na. Nid oes bwriad i ddymchwel dim un o'r adeiladau hyn.

119. *A fydd y cynnig yn newid 1) lefelau llygredd dŵr 2) lefelau tynnu dŵr neu 3) perygl o lifogydd?* 1) Na. 2) Na. 3) Na.

120. *A fydd yr opsiwn polisi yn newid 1) nifer neu amrywiaethau'r rhywogaethau byw 2) nifer, amrywiaeth neu ansawdd ecosystemau?* 1) Na. 2) Na.

121. *A fydd yr opsiwn polisi yn effeithio ar nifer y bobl y bydd sŵn yn effeithio arnynt, neu lefelau'r sŵn?* Na.

Prawf Effaith Nwyon Tŷ Gwydr

122. Mae'r rhaglen cau llysoedd yn effeithio ar allyriadau carbon mewn dwy brif ffordd:

- llai o ynni yn sgil cau'r llysoedd (swm net yr ynni ychwanegol y bydd ei angen wrth i lysoedd ysgwyddo cyfrifoldebau barnwrol ychwanegol)
- y teithio ychwanegol y bydd rhaid i ddefnyddwyr y llys ei wneud yn sgil y rhaglen cau llysoedd (swm net llai o deithiau posib i'r rhai sy'n defnyddio'r llys yn amlach yn sgil ystad sydd wedi'i chynllunio'n well yn strategol.

123. Ni chredir y bydd y polisi'n cael effaith arwyddocaol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

124. Nid oes disgwyl y bydd y rhaglen cau llysoedd arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar hyn.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol

125. Mae profion sgrinio cychwynnol y prawf effaith hwn yn dangos na fyddai'r cynnig hwn yn torri amodau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn benodol, rydym wedi ystyried potensial yr effaith o dan Erthygl 6 – yr hawl i gael achos teg – ond nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn rhwystro mynediad at system gyfiawnder annibynnol a theg.

Prawf Effaith ar Gyfiawnder

126. Mae'r prif asesiad o'r effaith yn nodi costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, i'r system gyfiawnder.

Prawf Effaith Prawfesur Polisiâu Gwledig

127. Gallai'r cynnig hwn gael effaith ar gymunedau gwledig. Yn ôl diffiniad DEFRA, mae aneddiadau sydd â phoblogaeth o dros 10,000 yn ôl y Cyfrifiad yn ardal *drefol*, ac mae'r gweddill yn perthyn i un o dair math o ardal wledig: *tref a'r cyrion*, *pentref ac ar wasgar*. Er bod y rhan fwyaf o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd arfaethedig mewn trefi a fyddai'n cael eu diffinio'n ardaloedd "trefol", mae'n bosib bod rhai o'u defnyddwyr yn byw mewn ardaloedd gwledig. Felly rydym wedi defnyddio'r rhestr wirio a gyhoeddwyd gan DEFRA wrth ystyried yr effeithiau posib (<http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/rural-proofing/>). Mae ymgynghoriadau â Chyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLITEM wedi rhoi sylw dyledus i'r rheini mewn ardaloedd gwledig y bydd angen iddynt deithio ymhellach na phobl eraill i allu defnyddio gwasanaethau'r llys.

128. *Darparu gwasanaethau ac argaeledd*: Mae'r polisi hwn yn argymhell canoli gwasanaethau. Bydd hyn yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, ond ni ddylai leihau faint o wasanaethau sydd ar gael gan y bydd y rhaglen cau llysoedd yn trosglwyddo swyddogaethau'r llys/tribiwnlys i adeiladau gerllaw sydd â swyddogaethau tebyg.

129. *Costau cyflawni*: Disgwylir y bydd y gost o gyflawni'r gwasanaeth yn lleihau gan y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gwneud arbedion drwy ddefnyddio llai o adnoddau yn fwy effeithlon a drwy ganoli gwasanaethau.

130. *Hygyrchedd a seilwaith*: Mae'n debygol y bydd hyd teithiau'n cynyddu, ac mae'r cynnydd hwnnw fwyaf tebygol o ddigwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyrir bod y cysylltiadau trafnidiaeth yn ddigonol a disgwylir y bydd hyd teithiau yn dal yn dderbyniol. Mae'n annhebygol y byddant yn effeithio ar ddefnyddwyr unigol mewn modd a fydd yn golygu ei bod yn annhebygol y byddant yn mynd i'r llys.

131. Mae'r effeithiau ar yr amser teithio wedi'u nodi yn yr adran ar amser teithio yn yr asesiad o'r effaith (gweler "Effeithiau ar amser teithio"), ac mae rhagor o fanylion am yr effaith ar yr amser teithio ar gael yn y papur ymgynghori.

132. *Cyfathrebu*: Mae'n annhebygol y bydd y polisi hwn yn effeithio ar gyfathrebu, a bydd ystod o atebion cyfathrebu yn dal i gael eu defnyddio.

133. *Yr economi*: Er bod posibilrwydd y bydd rhywfaint o effaith negyddol ar drefi lle bydd llysoedd/tribiwnlysoedd yn cau, disgwylir i'r effaith hon fod yn fach, a'r effaith gyffredinol yn fach iawn, wrth i wasanaethau gael eu trosglwyddo i ardaloedd cyfagos.

134. *Anfantais*: Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau arwyddocaol o dan y dangosydd hwn.

Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach

135. I fusnesau bach (gan gynnwys cyfreithwyr), efallai y bydd ychydig bach o gynnydd mewn amser a chostau teithio oherwydd yr angen am deithio ychwanegol i gynnal busnes yn eu llys agosaf. Fodd bynnag, byddai modd gwrthbwysu hyn yn erbyn llai o deithiau i'r llys, gan y byddai busnes y llys yn cael ei gynllunio'n well yn strategol.

Prawf Effaith Datblygu Cynaliadwy

Cam 1

1. Safonau Amgylcheddol

1a. A oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn deillio o'ch cynnig polisi (gweler y Prawf Effaith Amgylcheddol Ehangach)?
Nac oes
Os mai 'oes' yw'r ateb, gwnewch nodyn byr o'r effeithiau isod:
Amh

1b. Os mai 'oes' oedd eich ateb i 1a., a yw'r effeithiau amgylcheddol sylweddol yn berthnasol i unrhyw un o'r safonau cyfreithiol a rheoleiddiol a nodir?
Amh
Os mai 'ydy' yw'r ateb, gwnewch nodyn byr o'r safonau perthnasol isod:
Amh

Os mai 'ydy' oedd eich ateb i 1b., ydych chi wedi:
1c. Hysbysu'r Adran yn y Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y trothwy, ac wedi cadarnhau â nhw sut i gynnwys yr effeithiau'n briodol wrth ddadansoddi costau a buddion?
Amh
1d. Hysbysu gweinidogion, lle bo hynny'n briodol?
Amh
1e. Cytuno ar gamau lliniaru neu gydbwysu, lle bo hynny'n briodol?
Amh

2. Effeithiau sy'n pontio'r cenedlaethau

2a. Ydych chi wedi asesu sut y bydd prif gostau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol eich cynnig yn cael eu dosbarthu dros amser? Gellir cynnwys yr asesiad hwn yn eich Sylfaen Dystiolaeth neu ei gynnwys fel atodiad.
Ydw
Mae'r asesiad effaith hwn yn cynnwys dadansoddiad costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol dros gyfnod arfarnu 10 mlynedd.

2b. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw effeithiau sylweddol a allai gael effaith anghymesur ar genedlaethau'r dyfodol? Os felly, disgrifiwch nhw yn fyr.

Nac ydw

Os mai 'ydw' oedd eich ateb i 2b., ydych chi wedi:

2c. Hysbysu gweinidogion, lle bo hynny'n briodol? Os felly, rhowch fanylion.

Amh

2d. Cytuno ar gamau lliniaru neu wneud iawn, lle bo hynny'n briodol? Rhowch fanylion.

Amh

Cam 2

3. Pwrpas yr ail gam yw dod â chanlyniadau'r asesiad effaith, a chanlyniadau cam cyntaf y prawf Datblygu Cynaliadwy, at ei gilydd. Pwrpas y cwestiynau canlynol yw amlygu'r ansicrwydd yn y dadansoddiad cost a budd, a'ch helpu i ystyried sut i fwrw ymlaen wrth ystyried rhagor o dystiolaeth o gam cyntaf y prawf Datblygu Cynaliadwy.

3a. Nodwch yn y blwch priodol pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau gydbwysedd y costau a'r buddion â gwerth ariannol:

Cadarnhaol iawn	Eithaf cadarnhaol	Niwtral fwy neu lai / cytbwys iawn	Eithaf negyddol	Negyddol iawn
	x			

3b. Nodwch yn y blwch priodol pa un o'r canlynol sy'n debygol o ddisgrifio orau gydbwysedd y costau a'r buddion heb werth ariannol:

Cadarnhaol iawn	Eithaf cadarnhaol	Niwtral fwy neu lai / cytbwys iawn	Eithaf negyddol	Negyddol iawn
		x		

3c. Nodwch yn y blwch priodol pa un o'r canlynol sy'n debygol o ddisgrifio orau, rhwng popeth, ganlyniadau cwestiynau 1-3 Datblygu Cynaliadwy:

Cadarnhaol iawn	Eithaf cadarnhaol	Niwtral fwy neu lai / cytbwys iawn	Eithaf negyddol	Negyddol iawn
		x		

3d. Nodwch yn y blwch priodol pa un o'r canlynol sy'n debygol o ddisgrifio orau, yn gyffredinol, gydbwysedd y costau a'r buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol a'r materion cynaliadwyedd:

Cadarnhaol iawn	Eithaf cadarnhaol	Niwtral fwy neu lai / cytbwys iawn	Eithaf negyddol	Negyddol iawn
	x			

3e. Rhowch eglurhad o ganlyniad olaf 3d, gan esbonio, er enghraifft, sut yr ydych wedi cymharu costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, ac wedi mynd ati i ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y canlyniadau cost a budd a'r canlyniadau Datblygu Cynaliadwy.

Unig effaith Datblygu Cynaliadwy'r polisi yw'r gostyngiad canlyniadol mewn allyriadau carbon a gynhyrchir gan ystadau GLITEM. Mae'n bosib y gellir gwrthbwysu hyn yn erbyn cynnydd mewn amseroedd teithio i adeiladau llys gwahanol. Fodd bynnag mae'n bosib y caiff hyn ei leihau yn ei dro gan lai o deithiau i ystad llys sydd wedi'i had-drefnu. Bydd effaith lai, ond gadarnhaol, ar y defnydd o ddŵr a'r gwastraff a gynhyrchir mewn adeiladau sy'n cau, er gwaethaf y gwastraff a fydd yn cael ei greu unwaith yn unig yn sgil dirywiadau a gwaredu mewn rhai adeiladau. Rhwng popeth, mae'n addas cofnodi effaith Datblygu Cynaliadwy 'eithaf cadarnhaol'. Caiff yr effaith ei hadolygu eto wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Adolygu'r Polisi


136. Ni chaiff y polisi hwn ei adolygu ar wahân, ond bydd yn rhan o adolygiadau parhaus GLITEM o ystad y canolfannau gwrandawiaidau i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion gweithredu, yng nghyswllt egwyddor GLITEM o sicrhau mynediad at gyfiawnder, sicrhau gwerth am arian a sicrhau effeithlonrwydd yn y tymor hwy.

Atodiad A: Effaith ranbarthol y rhaglen cau llysoedd

A1: Effaith Cau Llysoedd yn Llundain

137. O ran y llysoedd y bwriedir eu cau yn Llundain, llysoedd ynadon yw'r rhan fwyaf ohonynt. Mae cyfran y boblogaeth sy'n gallu cyrraedd eu llys ynadon agosaf o fewn 60 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gostwng o 97% i 91%.


Siartiau A.01-A.06: Effaith cau llysoedd Llundain ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A2: Effaith Cau Llysoedd Canolbarth Lloegr

138. Bydd y newidiadau mwyaf sylweddol yn digwydd i lysoedd ynadon a llysoedd sirol. Yn benodol, o ran llysoedd ynadon, nid yw 7% o'r boblogaeth yn gallu cyrraedd y llys agosaf o fewn 60 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus erbyn hyn (yn gostwng o 81% i 74%), ac mae 8% o'r boblogaeth yn awr yn fwy na 30 munud i ffwrdd mewn car (yn gostwng o 92% i 84%).


Siartiau A.07-A.12: Effaith cau llysoedd Canolbarth Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A3: Effaith Cau Llysoedd Gogledd Ddwyrain Lloegr

139. Mae cyfran y boblogaeth sy'n gallu cyrraedd eu llys ynadon ddynodedig o fewn 60 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gostwng o 88% i 81%, a'r gyfran sydd 30 munud i fwrdd mewn car yn gostwng o 92% i 88%.


Siartiau A.13-A.18: Effaith cau llysoedd Gogledd Ddwyrain Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A4: Effaith Cau Llysoedd Gogledd Orllewin Lloegr

140. Ar Ogledd Orllewin Lloegr y mae'r cynigion yn cael yr effaith fwyaf o ran amseroedd teithio i lysoedd ynadon. Mae 16% o'r boblogaeth yn fwy na 30 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus i ffwrdd erbyn hyn (gostyngiad o 51% i 35%), fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn dal o fewn 60 munud o deithio (78%). Mae cynnydd mewn amseroedd teithio i lysoedd sirol hefyd, ond mae'r cynnydd yn llai o'i gymharu â llysoedd ynadon.


Siartiau A.19-A.24: Effaith cau llysoedd Gogledd Orllewin Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A5: Effaith Cau Llysoedd De Ddwyrain Lloegr

141. Yn Ne Ddwyrain Lloegr, mae'r cynlluniau i gau llysoedd yn effeithio ar bob math o lysoedd, ond nid oes cynnydd sylweddol i'r un ohonynt. Mae'r amser teithio i dribiwnlysoedd Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant fwy neu lai'n ddinewid.


Siartiau A.25-A.30: Effaith cau llysoedd De Ddwyrain Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A6: Effaith Cau Llysoedd De Orllewin Lloegr

142. Mae'r cynlluniau i gau llysoedd yn Ne Orllewin Lloegr yn effeithio ar bob math o lys a thribiwnlys sydd wedi'i fodelu. Fodd bynnag gan fod y cynlluniau wedi'u gwasgaru ar draws pob math o ystad, dim ond cynnydd bychan fydd i amseroedd teithio defnyddwyr yn y rhanbarth hwn.


Siartiau A.31-A.36: Effaith cau llysoedd De Orllewin Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



A7: Effaith Cau Llysoedd Cymru

143. Bydd cau llysoedd yng Nghymru yn cael effaith fwy, gan fod y llysoedd agosaf wedyn yn bellach i ffwrdd nag y maent mewn sawl rhanbarth arall. Fel y dangosir yn y siartiau isod, mae'r gwahaniaeth hwn yn sylweddol iawn i lysoedd ynadon. Mae gostyngiad mewn amseroedd ar gyfer llysoedd y Goron gan fod gwaith y goron yn Llysoedd Barn Caerfyrddin yn cael ei drosglwyddo i Lys Sirol ac Ynadon Hwlfordd, sy'n agosach i'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs).

Siartiau A.37-A.42: Effaith cau llysoedd Cymru ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth



Atodiad B: Crynodeb o Ddadansoddiad Cydraddoldeb Lleol a Rhanbarthol

144. Ar lefel gronnydd, mae'r rheini o gefndir ethnig Asiaidd sy'n byw wrth ymyl llysoedd cyfun yr effeithir arnynt yng Nghanolbarth Lloegr yn cael eu gorgynrychioli i ryw raddau, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol (25% o'i gymharu â 8%). Mae Mwslemiaid sy'n byw wrth ymyl llysoedd cyfun yr effeithir arnynt yng Nghanolbarth Lloegr hefyd yn cael eu gorgynrychioli (22% o'i gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol, sef 5%)
145. Ar y llaw arall, mae cau llysoedd yn effeithio llawer mwy ar y rheini o gefndir ethnig Gwyn. Ar gyfer llysoedd y Goron mae'r ffigur yn 98%, ar gyfer llysoedd Sirol mae'r ffigur yn 95%, a 96% yw'r ffigur ar gyfer Tribiwnlysoedd, o'u cymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol, sef 86%.
146. Ar draws swyddogaethau eraill y llys, a rhanbarthau GLITEM eraill, nid oes gwahaniaethau amlwg rhwng nodweddion gwarchoddedig y rheini sy'n byw yn lleol i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ym mhob rhanbarth, a phoblogaeth y rhanbarth yn gyffredinol (fel y dangosir yn Nhablau B.01-B.07).

Tabl B.01: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM Llundain

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Llundain
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		0	5	3	1	0	9
Rhyw	Dyn	Amh	50%	50%	50%	Amh	49%
	Menyw	Amh	50%	50%	50%	Amh	51%
Oedran	0-15	Amh	20%	20%	18%	Amh	20%
	16-64	Amh	70%	72%	74%	Amh	69%
	65+	Amh	10%	8%	8%	Amh	11%
Anabledd	Anabledd	Amh	14%	14%	14%	Amh	14%
	Dim anabledd	Amh	86%	86%	86%	Amh	86%
Hil	Gwyn	Amh	62%	55%	54%	Amh	60%
	Cymysg	Amh	5%	6%	6%	Amh	5%
	Asiaidd	Amh	15%	17%	7%	Amh	17%
	Du	Amh	13%	18%	27%	Amh	13%
	Arall	Amh	5%	4%	6%	Amh	5%
Crefydd	Cristion	Amh	49%	45%	53%	Amh	48%
	Bwdhydd	Amh	1%	1%	1%	Amh	1%
	Hindŵ	Amh	4%	2%	1%	Amh	5%
	Iddew	Amh	1%	0%	0%	Amh	2%
	Mwslim	Amh	12%	16%	9%	Amh	12%
	Sikh	Amh	2%	1%	0%	Amh	2%
	Crefydd arall	Amh	0%	0%	0%	Amh	1%
	Dim crefydd	Amh	22%	24%	27%	Amh	21%
	Heb nodi	Amh	8%	10%	9%	Amh	8%

Tabl B.02: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM Canolbarth Lloegr

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Canolbarth Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		0	11	4	1	1	17
Rhyw	Dyn	Amh	49%	49%	49%	49%	49%
	Menyw	Amh	51%	51%	51%	51%	51%
Oedran	0-15	Amh	19%	19%	17%	23%	19%
	16-64	Amh	63%	63%	64%	64%	64%
	65+	Amh	19%	18%	19%	13%	17%
Anabledd	Anabledd	Amh	19%	19%	23%	18%	19%
	Dim anabledd	Amh	81%	81%	77%	82%	81%
Hil	Gwyn	Amh	91%	95%	97%	58%	86%
	Cymysg	Amh	2%	1%	1%	4%	2%
	Asiaidd	Amh	5%	2%	1%	25%	8%
	Du	Amh	2%	1%	1%	9%	3%
	Arall	Amh	1%	1%	0%	3%	1%
Crefydd	Cristion	Amh	65%	64%	64%	46%	60%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Hindŵ	Amh	1%	0%	0%	2%	2%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	Amh	2%	1%	1%	22%	5%
	Sikh	Amh	2%	1%	0%	3%	2%
	Crefydd arall	Amh	0%	0%	0%	1%	0%
	Dim crefydd	Amh	23%	26%	27%	19%	24%
	Heb nodi	Amh	7%	7%	7%	7%	7%

Tabl B.03: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM Gogledd Ddwyrain Lloegr

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd Ddwyrain Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		0	5	5	6	0	16
Rhyw	Dyn	Amh	49%	49%	49%	Amh	49%
	Menyw	Amh	51%	51%	51%	Amh	51%
Oedran	0-15	Amh	18%	18%	18%	Amh	19%
	16-64	Amh	64%	63%	66%	Amh	65%
	65+	Amh	17%	18%	16%	Amh	17%
Anabledd	Anabledd	Amh	22%	20%	21%	Amh	20%
	Dim anabledd	Amh	78%	80%	79%	Amh	80%
Hil	Gwyn	Amh	95%	95%	91%	Amh	91%
	Cymysg	Amh	1%	1%	1%	Amh	1%
	Asiaidd	Amh	3%	3%	4%	Amh	5%
	Du	Amh	0%	0%	2%	Amh	1%
	Arall	Amh	1%	1%	2%	Amh	1%
Crefydd	Cristion	Amh	67%	66%	61%	Amh	62%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Hindŵ	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Mwslim	Amh	2%	2%	4%	Amh	5%
	Sikh	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Crefydd arall	Amh	0%	0%	0%	Amh	0%
	Dim crefydd	Amh	23%	25%	27%	Amh	25%
	Heb nodi	Amh	6%	7%	7%	Amh	7%

Tabl B.04: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM Gogledd Orllewin Lloegr

		Poblogaeth leol					Poblogaeth Gogledd Orllewin Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		0	10	6	0	1	17
Rhyw	Dyn	Amh	49%	49%	Amh	49%	49%
	Menyw	Amh	51%	51%	Amh	51%	51%
Oedran	0-15	Amh	19%	19%	Amh	20%	19%
	16-64	Amh	64%	63%	Amh	64%	65%
	65+	Amh	17%	18%	Amh	16%	17%
Anabledd	Anabledd	Amh	19%	20%	Amh	19%	20%
	Dim anabledd	Amh	81%	80%	Amh	81%	80%
Hil	Gwyn	Amh	90%	92%	Amh	88%	90%
	Cymysg	Amh	1%	1%	Amh	1%	2%
	Asiaidd	Amh	6%	6%	Amh	9%	6%
	Du	Amh	1%	0%	Amh	1%	1%
	Arall	Amh	1%	1%	Amh	1%	1%
Crefydd	Cristion	Amh	66%	68%	Amh	66%	67%
	Bwdhydd	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%
	Hindŵ	Amh	1%	0%	Amh	1%	1%
	Iddew	Amh	1%	0%	Amh	0%	0%
	Mwslim	Amh	5%	5%	Amh	7%	5%
	Sikh	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%
	Crefydd arall	Amh	0%	0%	Amh	0%	0%
	Dim crefydd	Amh	20%	20%	Amh	19%	20%
	Heb nodi	Amh	6%	6%	Amh	6%	6%

Tabl B.05: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM De Ddwyrain Lloegr

		Poblogaeth leol					Poblogaeth De Ddwyrain Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		1	11	5	5	2	24
Rhyw	Dyn	49%	49%	49%	50%	48%	49%
	Menyw	51%	51%	51%	50%	52%	51%
Oedran	0-15	21%	19%	19%	18%	16%	19%
	16-64	64%	63%	63%	67%	59%	64%
	65+	15%	18%	18%	15%	25%	17%
Anabledd	Anabledd	13%	16%	18%	16%	17%	16%
	Dim anabledd	87%	84%	82%	84%	83%	84%
Hil	Gwyn	89%	91%	94%	91%	97%	91%
	Cymysg	2%	2%	2%	2%	1%	2%
	Asiaidd	6%	5%	2%	4%	1%	4%
	Du	2%	2%	1%	2%	0%	2%
	Arall	1%	1%	1%	2%	1%	1%
Crefydd	Cristion	61%	61%	60%	53%	66%	60%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	1%	0%	0%
	Hindŵ	1%	1%	1%	1%	0%	1%
	Iddew	1%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	4%	2%	1%	2%	0%	2%
	Sikh	0%	0%	0%	0%	0%	1%
	Crefydd arall	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Dim crefydd	26%	27%	29%	35%	25%	28%
	Heb nodi	7%	7%	8%	8%	8%	7%

Tabl B.06: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM De Orllewin Lloegr

		Poblogaeth leol					Poblogaeth De Orllewin Lloegr
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		0	7	3	5	2	17
Rhyw	Dyn	Amh	49%	49%	50%	50%	49%
	Menyw	Amh	51%	51%	50%	50%	51%
Oedran	0-15	Amh	18%	19%	18%	17%	18%
	16-64	Amh	63%	63%	67%	68%	63%
	65+	Amh	19%	18%	15%	15%	20%
Anabledd	Anabledd	Amh	17%	16%	17%	17%	18%
	Dim anabledd	Amh	83%	84%	83%	83%	82%
Hil	Gwyn	Amh	95%	93%	90%	88%	95%
	Cymysg	Amh	1%	1%	2%	2%	1%
	Asiaidd	Amh	2%	4%	4%	6%	2%
	Du	Amh	1%	1%	3%	2%	1%
	Arall	Amh	1%	1%	1%	2%	1%
Crefydd	Cristion	Amh	61%	63%	54%	54%	60%
	Bwdhydd	Amh	0%	1%	1%	1%	0%
	Hindŵ	Amh	0%	1%	1%	1%	0%
	Iddew	Amh	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	Amh	1%	1%	3%	3%	1%
	Sikh	Amh	0%	0%	0%	1%	0%
	Crefydd arall	Amh	1%	0%	1%	1%	1%
	Dim crefydd	Amh	29%	26%	33%	33%	29%
	Heb nodi	Amh	8%	7%	8%	7%	8%

Tabl B.07: Nodweddion gwarchoddedig y rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, GLITEM Cymru

		Poblogaeth leol					Poblogaeth genedlaethol
		<i>Llys y Goron</i>	<i>Llys Ynadon</i>	<i>Llys sirol</i>	<i>Tribiwnlys</i>	<i>Llys cyfun</i>	
Cau safleoedd		1	6	5	1	2	15
Rhyw	Dyn	49%	49%	49%	50%	49%	49%
	Menyw	51%	51%	51%	50%	51%	51%
Oedran	0-15	17%	18%	18%	19%	18%	18%
	16-64	65%	62%	62%	64%	62%	63%
	65+	18%	19%	21%	17%	20%	18%
Anabledd	Anabledd	23%	24%	24%	21%	23%	23%
	Dim anabledd	77%	76%	76%	79%	77%	77%
Hil	Gwyn	94%	98%	98%	97%	98%	96%
	Cymysg	1%	1%	1%	1%	1%	1%
	Asiaidd	2%	1%	1%	1%	1%	2%
	Du	1%	0%	0%	0%	0%	1%
	Arall	2%	1%	1%	0%	0%	1%
Crefydd	Cristion	55%	57%	61%	63%	58%	58%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Hindŵ	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Iddew	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	2%	0%	1%	1%	0%	1%
	Sikh	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Crefydd arall	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Dim crefydd	34%	34%	29%	27%	32%	32%
	Heb nodi	7%	8%	8%	8%	8%	8%

Atodiad C: Cynllun Adolygu ar ôl Gweithredu

Sail yr adolygiad:

Gwerthuso a yw'r cynigion wedi'u gweithredu'n llwyddiannus, ac effaith hyn ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr.

Amcan yr adolygiad:

Bydd yr Adolygiad ar ôl Gweithredu yn asesu effaith lleihau ystad y llysoedd a'r triwlynlysoedd ar gostau gweithredu GLITEM, a pherfformiad llysoedd a thriwlynlysoedd, ac o ganlyniad i hynny yr effaith ar ddefnyddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid llysoedd yn y system cyfiawnder troseddol ehangach.

Sail resymegol a dull yr adolygiad:

Bydd yr Adolygiad ar ôl Gweithredu yn mynd ati i adolygu perfformiad GLITEM, gan ddefnyddio cynnyrch gwybodaeth reoli sefydledig er mwyn deall effaith y newidiadau ar ddarpariaeth llysoedd a thriwlynlysoedd.

Caiff yr Adolygiad ei gynnal ym Mhedwerydd Chwarter 2016/17 er mwyn sicrhau asesiad effeithiol o effaith darpariaethau'r llysoedd. Rhagwelir y bydd hyn dair blynedd ar ôl cau'r llysoedd cyntaf.

Amcan y cynigion yw ail-lunio ystad GLITEM yn unol â'r Egwyddorion Ystadau Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori. Nod yr egwyddorion hyn yw darparu ystad effeithlon a hyblyg sy'n bodloni gofynion presennol GLITEM, a'i ofynion yn y dyfodol.

Llinell sylfaen:

Llinell sylfaen perfformiad cyn gweithredu bydd y data llwyth gwaith a pherfformio a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol 2012/13 GLITEM.

Meini prawf llwyddiant:

Amcan y cynigion yw lleihau costau gweithredu GLITEM yn unol â'r rhagamcanion yn yr Asesiad Effaith, gan gynnal perfformiad o ran y gwasanaeth i gwsmeriaid ar yr un pryd. Ar ôl i'r prosiect gael ei gyflawni, disgwylir i egwyddor yr ystadau cenedlaethol gael ei bodloni, sef cynyddu'r defnydd o amser rhydd yr awdurdodaethau troseddol, a sesiynau rhydd yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thriwlynlysoedd, i o leiaf 80%.

Trefniadau monitro gwybodaeth:

Defnyddir dulliau adrodd ar berfformiad a rheolyddion ariannol penodol i weld a yw costau wedi lleihau yn unol â'r rhagamcanion yn yr Asesiad Effaith, gan gadw lefelau perfformiad gwasanaethau i gwsmeriaid.